**Atodiad A**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**ADRODDIAD YMGYNGHORI**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD**

**RHAGLEN FODERNEIDDIO YSGOLION: CANLYNIAD YMGYNGHORI YNGHYLCH Y CYNNIG I WNEUD NEWIDIADAU RHEOLEDIG I YSGOL HERONSBRIDGE I GYNYDDU NIFER Y DISGYBLION Y MAE'R YSGOL YN DARPARU AR EU CYFER I 300 AC ADLEOLI'R YSGOL O'I LLEOLIAD PRESENNOL YN HEOL EWENNI, PEN-Y-BONT AR OGWR I FFERM YR YNYS, PEN-Y-BONT AR OGWR, GAN GYCHWYN O DDECHRAU TYMOR YR HYDREF 2025.**

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad cyhoeddus hwn yw rhoi gwybod am ganlyniad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i wneud newidiadau rheoledig i Ysgol Heronsbridge:

- Cynyddu nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer i 300; ac

- Adleoli'r ysgol o'i lleoliad presennol yn Heol Ewenni, Pen-y-bont ar Ogwr i Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr.

1.2 Byddai'r ysgol newydd arfaethedig yn agor ar ddechrau tymor yr hydref 2025 (sef Medi 2025).

## 2. Cysylltiad ag amcanion llesiant corfforaethol/blaenoriaethau corfforaethol eraill

2.1 Mae'r rhaglen foderneiddio ysgolion hon yn gymorth i gyflawni'r amcanion llesiant corfforaethol a ganlyn o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**:

- **Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus -** cymryd camau i wneud y fwrdeistref sirol yn lle gwych i wneud busnes, i bobl fyw, gweithio, astudio ac ymweld, a sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar godi sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau i bawb yn y fwrdeistref sirol.

- **Defnydd doethach o adnoddau** – sicrhau bod yr holl adnoddau (ariannol, ffisegol, ecolegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl a chynorthwyo i greu adnoddau ledled y gymuned a all helpu i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor.

## 3. Cefndir

3.1 Ym mis Mawrth 2022, cafwyd cymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn proses ymgynghori statudol ynghylch newidiadau rheoledig arfaethedig i Ysgol Heronsbridge, fel y nodir ym mharagraffau 1.1 ac 1.2 yr adroddiad hwn.

3.2 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ac yn manylu ar sylwadau'r awdurdod lleol.

## 4. Y Broses Ymgynghori

4.1 Er mwyn symud y cynnig yn ei flaen, cynhaliwyd ymarferion ymgynghori rhwng 4 Ebrill a 18 Mai 2022 yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion statudol 2018. Roedd copi o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn ystod y cyfnod hwn ar wefan y Cyngor: https://www.bridgend.gov.uk/media/13300/heronsbridge-school-consultation-document.pdf

4.2 Roedd y ddogfen ymgynghori'n gwahodd safbwyntiau a barn ar y cynnig. Gellir gweld rhestr o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn Atodiad 12.

4.3 At hynny, gofynnodd Corff Llywodraethol Ysgol Heronsbridge i'r awdurdod lleol gyhoeddi casgliad o gwestiynau a ofynnid yn aml ynglŷn â'r cynnig, ac roedd y rhain hefyd ar gael ar wefan y Cyngor: https://www.bridgend.gov.uk/my-council/equalities-and-engagement/consultations/closed-consultations/heronsbridge-school/

## 5. Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

5.1 Roedd y pwyntiau allweddol o'r ymarfer ymgynghori fel a ganlyn, ac mae'r manylion llawn wedi eu hatodi ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Cynhaliodd yr awdurdod lleol gyfarfodydd 'rhithwir' gyda dysgwyr, staff, llywodraethwyr a Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac aelodau o'r gymuned.

5.2 **Ymgynghoriad â'r Corff Llywodraethu**

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori 'rhithwir' Timau Microsoft gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Heronsbridge ar 11 Mai 2022. Ceir manylion llawn trafodaethau'r cyfarfod, yr ymatebion a'r eglurhad a roddwyd yn Atodiad 1 yr Adroddiad Ymgynghori hwn.

Holodd llywodraethwyr yr ysgol ynghylch maint yr ysgol a'r galw am leoedd yn y dyfodol. Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'r Pennaeth i ganfod poblogaeth ragamcanol yr ysgol drwy edrych ar ddata hanesyddol a rhagamcanu'r boblogaeth ymlaen. Ystyrir bod y capasiti rhagamcanol o 300 yn gynaliadwy. Dywedwyd wrth y llywodraethwyr y gallai ysgol sy'n rhy fawr wanhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Ystyrir mai ysgol â 300 o leoedd yw'r terfyn lle na chaiff ansawdd yr addysgu, yr ymyrraeth, y rheolaeth a'r llywodraethu ei golli

Mae meini prawf derbyn newydd, a gyflwynwyd yn 2013, wedi golygu bod niferoedd y disgyblion wedi aros yn gymharol sefydlog ac mae hyder yn

rhagamcanion nifer y disgyblion ar gyfer y pump i ddeng mlynedd nesaf. Os bydd datblygiadau tai yn parhau i dyfu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried strategaeth ar gyfer y ffordd ymlaen yn y dyfodol.

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn elwa o gyfleusterau pwrpasol (er enghraifft, pwll nofio, porthdy eco). Gofynnodd y llywodraethwyr pam y dylent gefnogi'r cynnig os nad oes gan yr ysgol newydd yr un cyfleusterau, os nad yw'n well na'r ddarpariaeth bresennol. Dywedodd y swyddogion fod yn rhaid dilyn Bwletin Adeiladu (BB) 104 o ran arwynebedd llawr. Fodd bynnag, cynhelir sesiynau ymgysylltu â'r ysgol i sicrhau bod yr arwynebedd a ddarperir yn cwrdd ag anghenion yr ysgol, gan sicrhau bod y profiad dysgu a'r cyfleusterau a ddarperir cystal, os nad yn well, na'r ddarpariaeth bresennol, yn unol â BB104.

Roedd ar y llywodraethwyr eisiau sicrwydd y byddai gan y contractwr a gâi ei benodi brofiad perthnasol o ran cyflawni ysgolion arbennig. Byddai'r contractwr llwyddiannus yn cael ei benodi o Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain Cymru a Chanolbarth Cymru (SEWSCAP3) neu fersiynau posibl o'r fframwaith yn y dyfodol drwy gystadleuaeth fechan. Byddai'r tendr yn seiliedig ar gost ac ansawdd. Edrychid am enghreifftiau o brofiad o adeiladu ysgolion arbennig neu gynlluniau tebyg (hynny yw, iechyd neu ofal cymdeithasol). Byddai sesiynau ymgynghori yn cael eu cynnal gyda'r ysgol ynglŷn â'r dyluniad, gan fod mewnbwn gan staff yn hollbwysig. Câi'r sesiynau hyn eu harwain gan y contractwr dylunio ac adeiladu, unwaith y câi ei benodi. Mae'n hanfodol bod pawb yn cymryd rhan ac yn cael rhoi mewnbwn. Bydd y dyluniad yn un pwrpasol.

Nid yw'r adeilad presennol yn gymwys nac yn addas i'r pwrpas. Mae angen ysgol sydd ag ystafelloedd dosbarth cynnes, sych a diogel a choridorau lle gall disgyblion symud o gwmpas yn ddiogel. Mae angen toiledau a mannau newid mwy o faint sy'n diogelu urddas. Rhaid i'r ysgol fod yn lle diogel gyda ffens derfyn i ddisgyblion fedru archwilio'r safle'n ddiogel.

### 5.3 Ymgynghoriad â Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori 'rhithwir' Timau Microsoft gyda Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ar 17 Mai 2022. Ceir manylion llawn trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion/eglurhad a roddwyd yn Atodiad 2 yr Adroddiad Ymgynghori hwn.

Gofynnwyd cwestiwn am nodweddion cynaliadwy'r adeilad. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor y caiff yr adeilad ei ddylunio yn unol â'r ymrwymiad hirdymor tuag at leihau carbon a sicrhau adeiladau di-garbon net. Y disgwyl yw y byddai mwy o insiwleiddiad yn yr adeilad, yn y lloriau, y waliau, y toeau a'r gwydr ac y ceid nifer sylweddol o baneli solar, pympiau gwres o'r aer ac o'r ddaear.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r traffig y tu allan i'r ysgol ar Heol Ewenni, yn enwedig pan fydd rhaid i dacsis a bysiau mini'r ysgol orfod ciwio.
Mae plant yn teithio o bob rhan o'r fwrdeistref sirol i Ysgol bresennol Heronsbridge ac mae nifer fechan iawn yn teithio o'r tu allan i'r sir. Mae nifer y bysiau mini a thacsis sy'n ciwio y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys traffig o Ysgol Gynradd Oldcastle ac Ysgol Brynteg, yn achosi tagfeydd. Ni chafodd

isadeiledd y ffyrdd y tu allan i'r ysgol ei adeiladu ar gyfer maint y traffig. Mae system lôn sengl, unffordd ar safle'r ysgol ac mae'r ysgol wedi gorfod gweithredu "cyfnod clo dim symudiad cerbydau" i sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion a staff. Mae hyn i gyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar Heol Ewenni. Pe bai'r cynigion yn mynd yn eu blaen ar y safle newydd byddai ffordd breifat, (a rennir gyda chanolfan tennis arfaethedig) a rhagwelir y bydd system fynediad ac allanfa gyda man gollwng mawr.

Holwyd sut yr ymdrinnid â'r mynediad i'r ysgol newydd. Byddai mynediad i'r ysgol drwy'r Parc Gwyddoniaeth. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Traffig (AET) mewn perthynas â'r cynnig. Ystyriodd yr AET y rhwydwaith priffyrdd ac mae pwysau ar y gylchfan. Bydd angen gwelliannau i'r gylchfan drwy gyflwyno lôn ychwanegol ar y rhwydwaith priffyrdd (o fewn graddau priffyrdd), a fydd yn lliniaru'r mater. Os bydd y gwelliant wedi cael ei wneud, ni chaiff y pwysau ar y gylchfan ei wneud yn waeth drwy symud yr ysgol i Fferm yr Ynys.

## 5.4 Ymgynghoriad â'r Staff

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori 'rhithwir' Timau Microsoft gyda staff Ysgol Heronsbridge ar 25 Ebrill 2022. Ceir manylion llawn trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion/eglurhad a roddwyd yn Atodiad 3 yr Adroddiad Ymgynghori hwn.

Codwyd cwestiynau'n bennaf ynghylch maint yr ysgol a'r galw am leoedd yn y dyfodol, y cyfleusterau yn yr ysgol newydd (er enghraifft, therapi adlam a hydrotherapi), ymgynghori â staff, disgyblion y tu allan i'r awdurdod, darpariaeth breswyl, caniatâd cynllunio, defnydd o safle presennol yr ysgol yn y dyfodol, mannau gollwng a nodweddion amgylcheddol yr adeilad newydd.

Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor y rhesymeg y tu ôl i benderfynu maint yr ysgol a bod y Pennaeth wedi rhoi mewnbwn i benderfynu ar niferoedd y disgyblion a ragamcanwyd (hynny yw, yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol a rhagamcanu'r data).

Caiff yr adeilad newydd ei ddylunio yn unol â BB104. Bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i sicrhau bod y mannau/cyfleusterau sydd eu hangen yn cael eu darparu o fewn canllawiau arwynebedd y llawr. Unwaith y penodir contractwr dylunio ac adeiladu, cynhelir cyfres o sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r staff. Byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad.

Nid oes lle dros ben i gynnig lleoedd i ddysgwyr sy'n byw y tu allan i'r sir. Fodd bynnag, bydd eithriadau bob amser. Ar hyn o bryd, mae tua 13 o ddisgyblion o'r tu allan i'r awdurdod.

Darperir dau dŷ, pedair ystafell wely, fel rhan o ddatblygiad yr ysgol ar gyfer disgyblion preswyl. Byddai'r defnydd o safle presennol yr ysgol yn y dyfodol yn dibynnu ar ganlyniad cynnig Ysgol Heronsbridge a phenderfyniad y Cabinet. Mae prif adeilad yr ysgol bresennol wedi'i restru gan Cadw.

Caiff yr adeilad ei ddylunio yn unol â'r ymrwymiad hirdymor i leihau carbon a chyflawni adeiladau di-garbon net. Bydd angen i'r contractwr ystyried ei ddefnydd o garbon yn ystod y gwaith adeiladu a bydd yn rhaid iddo ystyried

carbon gydol oes, er enghraifft dewis deunyddiau carbon isel. Bydd yn rhaid gadael y safle mewn gwell cyflwr bioamrywiol. Mae llawer o le i wella a chynyddu ecoleg a bioamrywiaeth safle’r ysgol arfaethedig.

Mae yna ganllawiau ar gyfer mannau parcio a gollwng. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ganllawiau ar gyfer ysgolion arbennig. Felly, bydd angen trafod darpariaeth o’r fath gyda thîm priffyrdd yr awdurdod lleol a swyddogion cynllunio. Caiff cyfleusterau beicio eu cynnwys.

5.5 **Ymgynghoriad â’r Dysgwyr**

Cyfarfu Cyngor Ysgol Heronsbridge yn rhithwir drwy gyfrwng Timau Microsoft â chynrychiolwyr cyngor CBSP ar 4 Ebrill 2022 i drafod y cynnig. Rhoddwyd fersiwn addas i blant o'r ddogfen ymgynghori i’r disgyblion cyn y cyfarfod a gofynnwyd iddynt am eu barn. Ceir manylion llawn trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion/eglurhad a roddwyd yn Atodiad 4 yr Adroddiad Ymgynghori hwn.

Roedd gan y Cyngor Ysgol ddiddordeb mewn mynediad i safle’r ysgol, hyd y gwaith adeiladu, diogelwch, defnydd o’r adeilad presennol yn y dyfodol, enw’r ysgol, nifer y lleoedd i ddisgyblion, offer a darpariaeth TG, llwybr ar gyfer eu taith gerdded ‘filltir ddyddiol’, a chyfleusterau yn yr ysgol newydd.

Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor, er nad oes dyluniad manwl wedi'i greu eto, y câi digon o le dan do ac yn yr awyr agored ei ddarparu ar gyfer 300 o ddisgyblion, gan gynnwys cyfleusterau arbenigol, ystafelloedd dosbarth, neuadd a gofod cylchredeg, maes chwaraeon, iard a chwarae meddal. Câi rhannau allanol eu datblygu i gyd-fynd ag anghenion yr ysgol (er enghraifft, llwybr ar gyfer y daith ‘filltir ddyddiol’, rhandir).

Dyrennir cyllideb ar gyfer dodrefn, offer a TG. Fodd bynnag, byddai rhai adnoddau yn trosglwyddo gyda'r ysgol.

Mae diogelwch yn hollbwysig. Byddai ffensys diogelwch o amgylch y safle a châi teledu cylch cyfyng ei ddarparu. Pe bai’r cynnig yn mynd yn ei flaen, câi cyfarfodydd pellach eu trefnu fel y gallai’r disgyblion gyfrannu eu mewnbwn i’r broses ddylunio.

Ni ragwelir y byddai enw’r ysgol yn newid, mater i gorff llywodraethu’r ysgol yw hwn. Gofynnid i'r Cabinet ystyried defnydd y safle oedd ar ôl yn y dyfodol unwaith y bydd gwerthusiad wedi cael ei gwblhau o’r dewisiadau, ac yn dibynnu ar ganlyniad llwyddiannus y cynnig hwn.

5.6 **Digwyddiad Ymgynghori Agored – Cyfarfod Rhithwir**

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori ‘rhithwir’ Timau Microsoft ar 25 Ebrill 2022. Nid oedd unrhyw fynychwyr yn y cyfarfod hwn. Mae Atodiad 5 yr Adroddiad Ymgynghori hwn yn manylu ar gynrychiolwyr y cyngor oedd yn bresennol.

5.7 **Crynodeb o Sylwadau Ysgrifenedig**

Derbyniwyd tair eitem o ohebiaeth uniongyrchol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gweler Atodiad 6 yr Adroddiad Ymgynghori hwn am fanylion ac ymatebion / eglurhad.

5.8 Anfonwyd ymatebion at awduron eitemau o ohebiaeth yn diolch iddynt am eu cyflwyniadau ac yn datgan y câi eu sylwadau eu hystyried.

5.9 **Crynodeb o Ymatebion i Arolygon Ar-lein**

5.10 Ar y cyfan, cwblhaodd 81 o ymatebwyr yr holiadur ar-lein. O ran y cwestiwn ynghylch a oeddent yn cefnogi'r cynnig, atebodd 51 'Ydw' a 30 'Nac ydw'. Gweler Atodiad 7 yr Adroddiad Ymgynghori hwn am fanylion ac ymatebion / eglurhad yr awdurdod lleol mewn perthynas â'r materion a godwyd.

## 6. Barn Estyn, Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

6.1 Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig. Gweler Atodiad 8 yr Adroddiad Ymgynghori hwn am fanylion llawn. Daeth Estyn i'r casgliad a ganlyn:
'Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal y safon addysg bresennol o leiaf'.

## 7 Asesiadau Effaith

7.1 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned (Atodiad 9) fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i ddiweddaru yn dilyn y broses ymgynghori.

7.2 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Atodiad 10) a'i gyhoeddi fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Ystyrir bod y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg:

- Gellid defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer defnydd cymunedol / dosbarthiadau oedolion drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r safle mewn lle canolog, fydd yn annog defnydd gan y gymuned gyfagos ac ehangach fydd yn ceisio cyfle i gymryd rhan mewn dosbarthiadau / cyrsiau Cymraeg.
- Bydd yr ysgol newydd yn hollol hygyrch.

Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r casgliad yn dal yn ddilys.

7.3 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) cychwynnol (Atodiad 11) l fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Nododd na fyddai unrhyw effaith negyddol ar bobl ag un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig, ar anfantais economaidd-gymdeithasol nac ar y defnydd o'r Gymraeg. Nodwyd effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys anabledd a rhyw. Felly nid oes angen cynnal AEC llawn ar y polisi neu'r cynnig hwn.

Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r casgliad yn dal yn ddilys.

7.4 Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei hystyried wrth lunio'r cynnig.

## 8. Casgliad

Yn dilyn y broses ymgynghori, mae'r awdurdod lleol wedi ailedrych ar y cynnig er mwyn canfod yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, trafnidiaeth a'r gymuned.

### Ansawdd a safonau

Byddai'r cynnig yn darparu ysgol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu gydag amgylchedd addysgu a dysgu o'r radd flaenaf fyddai'n hyrwyddo lles ac agweddau at ddysgu. Byddai'r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a safonau addysg drwy ddarparu cymorth arbenigol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Câi'r adeilad a'r mannau allanol eu dylunio i gwrdd ag anghenion staff a disgyblion yr ysgol.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safon addysg bresennol o leiaf.

Bydd y cynnig yn sicrhau bod y cyngor yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu digon o leoedd ysgol a chwrdd ag anghenion ein disgyblion mwyaf agored i niwed.

### Cludiant

Ychydig iawn o effaith fydd ar y ddarpariaeth cludiant ysgol gan fod mwyafrif helaeth y disgyblion yn derbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol a bod y safle arfaethedig wedi ei leoli tua milltir o'r ysgol bresennol.

Byddai digon o leoedd parcio a mannau gollwng/codi a chysylltiadau priffyrdd yn cael eu darparu fel rhan o ddyluniad yr ysgol newydd.

Bydd darparu ysgol yn Fferm yr Ynys yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud gwelliannau priffyrdd i'r gylchfan yn Heol Ewenni, y gellir eu cyflawni o fewn ffiniau priffyrdd.

### Y Gymuned

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Daw'r asesiad i'r casgliad nad yw'n debygol y bydd effaith ar y defnydd cymunedol, er bod effaith gadarnhaol yn debygol o ran cyfleusterau modern, hygyrch, pwrpasol a ddarperir yn yr ysgol newydd arfaethedig.

Ymgysylltodd yr awdurdod lleol â'r gymuned yn ystod yr ymgynghoriad. Derbyniodd pob cyngor cymuned a thref y ddogfen ymgynghori a chynhaliwyd cyfarfod gyda Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol drwy:

- Sicrhau cyflenwad digonol o leoedd ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY cymhleth; a
- Darparu cyfleusterau ysgol gwell y gellid eu defnyddio at ddefnydd y gymuned

Mae annog defnydd cymunedol yn un o amcanion allweddol y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Mae yna bryderon ynghylch cynnydd mewn traffig a’r effaith ar seilwaith lleol, fel y manylir yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae yna fesurau lliniaru arfaethedig a bydd swyddogion yn sicrhau bod y prosiect yn rhoi’r sylw dyledus i’r gwelliannau priffyrdd angenrheidiol.

## 9. Y broses statudol ar gyfer penderfynu ar gynigion

9.1 Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amserlen dros dro:

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyfnod ymgynghori pan fyddwn yn croesawu eich barn a’ch sylwadau ar y cynnig.* | 4 Ebrill hyd 18 Mai 2022 |
| Adroddiad Ymgynghori Drafft i'r Cabinet ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. | 14 Mehefin 2022 |
| Cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori cymeradwy ar wefan CBSP, copïau caled ar gael ar gais. | 15 Mehefin 2022 |
| Os cytunir arno gan Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cyhoeddir Hysbysiad Cyhoeddus a bydd cyfnod o 28 diwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau i’r cynnig yn ysgrifenedig. | 30 Mehefin 2022 |
| Os na fydd gwrthwynebiadau gall y Cabinet benderfynu a ddylid bwrw ymlaen ai peidio. Os bydd unrhyw wrthwynebiadau, anfonir Adroddiad Gwrthwynebiadau at y Cabinet i'w ystyried ac i wneud penderfyniad yn ei gylch. Yna caiff yr adroddiad cymeradwy ei gyhoeddi ar wefan CBSP a bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar gais.<br>Cyhoeddi'r llythyr o benderfyniad. | Medi 2022 |
| Gweithredu. | Medi 2025 |

*Mae copïau caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais.*

| | |
|---|---|
| **Swyddog Cyswllt:** | Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth) |
| **Ffôn:** | (01656) 643643 |
| **E-bost:** | edsu@bridgend.gov.uk |
| **Cyfeiriad Post** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Swyddfeydd Dinesig<br>Stryd yr Angel<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 4WB |

*Mae’r adroddiad hwn yn ddarostyngedig i’r gweithdrefnau galw i mewn fel y’u nodir yn Rhan 4 o Reolau Gweithdrefnau yng nghyfansoddiad y Cyngor, sy’n caniatáu i benderfyniadau a wneir gan y Cabinet, ond sydd eto i gael eu gweithredu, gael eu hadolygu. Os derbynnir hysbysiad dilys yn galw’r adroddiad i mewn gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, caiff yr holl randdeiliaid eu hysbysu*.

**ATODIAD 1**

| **Ymgynghoriad â Llywodraethwyr Ysgol Heronsbridge Dydd Mercher 11 Mai 2022 am 3:45 y prynhawn** |
|---|

Presennol: Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwr y Rhaglen Ysgolion
Swyddog Adnoddau Strategol a Chynllunio
Prif Gynorthwyydd Pensaernïol
Rheolwr Grŵp, Cymorth i Ddysgwyr
Pennaeth, Ysgol Heronsbridge
Prif Seicolegydd Addysg
4 Llywodraethwr Ysgol

Ymddiheuriadau: 3 Llywodraethwr

Cyflwynodd y Pennaeth y sesiwn ymgynghori a chyflwynodd y tîm eu hunain. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bwrpas y cyfarfod a diolchodd i lywodraethwyr yr ysgol am eu cefnogaeth gyda'r prosiect. Eglurodd Rheolwr y Rhaglen Ysgolion, Moderneiddio Ysgolion, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig. Rhoddodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol drosolwg ar gynllun y safle a'r pwyntiau mynediad ac eglurodd ein bod yn gweithio i gyflawni Sero Carbon Net.

| **<u>Cwestiynau / Materion</u>** | **<u>Ateb / Sylwadau</u>** |
|---|---|
| XX: Fydd yr ysgol newydd yn medru ymdopi â'r galw am leoedd yn y dyfodol? | XX: Codwyd y cwestiwn hwn ym mhob ymgynghoriad. Mae Ysgol Heronsbridge a'r awdurdod lleol wedi cydweithio'n agos iawn ar y broses lleoedd. Mae'r tîm wedi olrhain ffigurau rhagamcanion disgyblion o bump a deng mlynedd yn y gorffennol a'r dyfodol.<br><br>XX: Roedd 221 o ddisgyblion yn Ysgol Heronsbridge 11 mlynedd yn ôl. 243 oedd y nifer uchaf yn y blynyddoedd blaenorol. Bydd 250 o ddisgyblion ym mis Medi, gyda'r ehangiad yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn dwf o 20 disgybl mewn 11 mlynedd.<br><br>XX: Mae nifer sefydlog o leoedd y mae angen inni eu llenwi. Yr her yw bod nifer y lleoedd sydd ar gael yn dibynnu ar nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol. Byddwn yn ymgorffori darpariaeth feithrin nad ydym wedi ei chael yn Heronsbridge ers |

| | |
|---|---|
| | blynyddoedd lawer, ac rydym yn hyderus bod lle i 300 yn gynaliadwy ac na fyddwn yn tyfu tu hwnt i hyn. |
| XX: Ni fydd lle i 300 yn yr ysgol yn ddigon. Bydd arnom angen mwy o le ac rydw i'n meddwl y dylai hyn gael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynllunio. | XX: Rydym wedi ymgynghori â'r ysgol ac wedi ystyried yn ofalus y cydbwysedd y mae angen inni ei gyrraedd. Os byddwn yn adeiladu ysgol sy'n rhy fawr, gallai hynny wanhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu i'n disgyblion. Rydym wedi cynnal trafodaethau ynghylch ble mae'r terfyn lle y byddwn yn colli'r ansawdd, yr ymyrraeth, y rheolaeth a'r llywodraethu hwnnw. Bydd capasiti o 300 yn gwneud Ysgol Heronsbridge yr ysgol arbennig fwyaf yng Nghymru. Bydd darpariaeth Feithrin wedi ei chynnwys yn y 300. |
| XX: Does arnaf i ddim eisiau ein gweld ni'n gorfod edrych am le ychwanegol ymhen blwyddyn ar ôl agor am nad oes gennym ddigon o le. | XX: Cyflwynwyd meini prawf derbyn newydd yn 2013. Mae niferoedd disgyblion wedi aros yn sefydlog ac rydym ni'n hyderus bod ein ffigurau rhagamcanol ar gyfer y pump i ddeng mlynedd nesaf yn gywir.<br><br>XX: Mae'r meini prawf wedi mynd yn llawer tynnach a chynigir lleoedd i blant sydd angen lle yn Ysgol Heronsbridge. Mae arnom eisiau sicrhau bod ein disgyblion yn derbyn addysg gyda theimlad pwrpasol a phersonol. Gallai ysgol o fwy na 300 o leoedd olygu ein bod yn colli hyn. Os bydd datblygiadau tai yn dal i dyfu y Mhen-y-bont ar Ogwr, yna bydd angen i'r Cabinet a'r Cyfarwyddwr ystyried strategaeth ar gyfer y ffordd ymlaen yn y dyfodol.<br><br>Sicrhaodd XX XX ac XX fod swyddogion wedi cymryd llawer o amser i sicrhau bod gennym ysgol o'r maint cywir. |
| *Rhannodd XX gwestiynau oddi wrth XX.*<br><br>XX: Bydd symud i Fferm yr Ynys yn mynd â disgyblion i ffwrdd o ganol y dref. Fyddai'r awdurdod lleol yn darparu bysiau mini i gludo disgyblion o'r safle newydd i ganol y dref? Mae angen iddynt gael mynediad diogel i'r gymuned. | XX: Mae arnom eisiau gwella'r cyfleoedd i ddysgwyr. Rydym yn gwybod bod disgyblion yn ymgymryd â llawer o waith yn y dref fel rhan o'u datblygiad personol a byddwn yn trafod yr awgrymiadau hyn gyda'r Cabinet. Byddai'r cyllid ar gyfer hyn yn dod o refeniw. Gofynnodd XX i XX roi adborth i XX. |
| XX: Pam byddai'r llywodraethwyr yn cefnogi'r cynnig hwn os nad oes gan Ysgol newydd Heronsbridge yr un cyfleusterau, os nad gwell na'r ysgol bresennol? | XX: Adleisiwyd hyn yng nghyfarfod staff yr ysgol. Mae'n rhaid inni ddilyn y canllawiau ym Mwletin adeiladu 104 (BB104). Byddwn yn cynyddu popeth o fewn ein gallu, gan gynnwys y pwll nofio. Yn ystod yr |

| | |
|---|---|
| | ymgynghoriad â'r disgyblion, roeddent yn awyddus i fynd â'r berllan i'r safle newydd ac i sicrhau bod gennym ysgol gynaliadwy. Mae XX a'r tîm wedi edrych yn ofalus ar ddarparu safle cynaliadwy. Efallai na allwn symud rhai o'r coed, ond byddwn yn edrych ar ffyrdd o blannu coed newydd. Byddwn yn sicrhau bod y profiad dysgu a'r cyfleusterau a ddarperir gystal os nad gwella na'r hyn sydd gennych eisoes, yn unol â BB104.<br><br>Mae XX ac XX wedi trafod dyrannu lle ar y dyluniad i ddangos man y gellir lleoli perllan. Efallai hefyd y gallwn adleoli eich eco-gaban i'r safle newydd. Byddwn yn edrych ar y dewisiadau i wella'r ddarpariaeth a gwneud y gorau o safle'r ysgol. |
| XX: Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r broses caffael a thendro. Mae angen i chi sicrhau bod gan y contractwr a benodir brofiad o adeiladu ysgolion arbennig. Mae angen ystyried y deunyddiau adeiladu a'r gorffeniad. | XX: Byddwn yn sicrhau contractwr drwy fframwaith SEWSCAP. Caiff y fframwaith hwn ei reoli gan Gyngor Dinas Caerdydd ac mae'n cynnwys llawer o gwmnïau dylunio ac adeiladu mawr. Yn ystod y broses dendro, bydd rhaid i gontractwyr ateb cwestiynau cyn cymhwyso a byddai un o'r cwestiynau yn ymwneud â'u profiad o adeiladu ysgol arbennig. Byddwn yn creu casgliad cadarn o ofynion cyflogwr fydd yn cael eu cyfleu o fewn y dogfennau. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn caffael contractwr sy'n meddu ar y profiad perthnasol. Unwaith y bydd contractwr dylunio ac adeiladu wedi ei benodi, byddwn yn cynnal cyfres o sesiynau ymgynghori a dylunio gyda'r ysgol. Mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio gyda chi gan mai chi yw'r arbenigwyr yn yr hyn y mae arnoch ei angen i'r ysgol.<br><br>XX: Rydym wedi ein cyfyngu yn ein dewis o gontractwyr oherwydd bod rhaid inni ddefnyddio fframwaith SEWSCAP. Bu'r holl gontractwyr ar y lot yn ymwneud â gweithio ar ysbytai a chynlluniau gofal Cymdeithasol. Does arnom ni ddim eisiau i Ysgol Heronsbridge edrych yn sefydliadol; mae cadernid ysbyty neu gyfleuster gofal iechyd wedi eu gweithio i mewn i'r dyluniad. Gallem rannu'r cwestiwn ar ansawdd yn ddau i gynnwys cwestiwn sy'n gofyn os nad ydynt wedi gweithio ar ysgol arbennig yn benodol, pa gyfleuster gofal iechyd neu ysbyty y maent wedi gweithio arno. |

| | |
|---|---|
| XX: Cawsom ein harwain i gredu y gallem gael yr ysgol yr oedd arnom ei heisiau. Mae arnom eisiau adeilad pwrpasol. Mae'n bwysig bod staff yr ysgol yn cymryd rhan yn y dylunio oherwydd eu bod yn adnabod y plant a'u hanghenion. Mae arnom eisiau sicrhau bod yr ysgol yn darparu ar gyfer anghenion amrywiol y disgyblion a bod ganddi yr holl gyfleusterau a lleoedd y mae ar ysgol arbennig eu hangen. | XX: Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn cael hyn yn iawn ar gyfer disgyblion a staff. Y staff yw'r arbenigwyr, ac mae arnom eisiau iddo weithio iddynt hwy.<br><br>XX: Rydym yn rhoi ein hymrwymiad pendant y byddwn yn cynnal sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran y dyluniad. Bydd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r staff, llywodraethwyr a disgyblion. Arweinir y sesiynau hyn gan y contractwr dylunio ac adeiladu, unwaith y bydd wedi ei benodi. Mae'n hanfodol bod pawb yn cymryd rhan ac yn cael rhoi mewnbwn. Bydd y cynllun yn bwrpasol. |
| Diolchodd XX i'r pennaeth a llywodraethwyr yr ysgol am eu hamser a'u cefnogaeth a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at symud y prosiect hwn yn ei flaen. Gofynnodd XX am i'r holl gwestiynau yn ymwneud â'r ymgynghoriad ddod i law erbyn 18 Mai 2022. | |
| Mae XX wedi derbyn nifer o sylwadau gan rieni sydd â diddordeb yn Ysgol newydd Heronsbridge. Mae'r mwyafrif yn gofyn, "Ydych chi'n meddwl y dylem gael ysgol newydd?" Rydw i'n ateb drwy ddweud bod adeilad yr Ysgol Heronsbridge bresennol wedi gwasanaethu Pen-y-bont ar Ogwr yn dda. Bydd yr adeilad yn sefyll prawf amser, ond nid yw'n gymwys, neu'n addas i'r diben ar gyfer y disgyblion sydd gennym yma ar hyn o bryd. Mae arnaf eisiau mynd â'r gwerthoedd, yr ethos a'r diwylliant sydd gennym yma i'r ysgol newydd. Mae arnaf eisiau mynd â'r holl gyfleusterau i'r ysgol newydd. Mae arnaf eisiau ystafelloedd dosbarth cynnes, sych, diogel a choridorau mawr lle gall disgyblion symud o gwmpas yn ddiogel. Mae arnaf eisiau mannau toiled a newid mwy o faint sy'n diogelu urddas. Mae arnaf eisiau sicrhau ein bod yn cael y gorau o bopeth. Mae Heronsbridge yn safle gyda nifer yn sefyll arno ac ni allwn gau'r giatiau. Mae arnaf eisiau lle diogel i'n plant gyda ffens derfyn er mwyn i'n plant fedru archwilio'r safle'n ddiogel. Mae newid yn codi ofn ond mae'r cyfle hwn yn gyffrous. | |

**ATODIAD 2**

# Ymgynghoriad Ysgol Heronsbridge â Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr Dydd Mawrth 17 Mai 2022 am 3:30 y prynhawn

Presennol: Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwr y Rhaglen Ysgolion
Swyddog Adnoddau Strategol a Chynllunio
Prif Gynorthwyydd Pensaernïol
Pennaeth, Ysgol Heronsbridge
Prif Seicolegydd Addysg
**Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr x 1 cynrychiolydd**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y sesiwn ymgynghori a chyflwynodd y tîm eu hunain. Eglurodd Rheolwr y Rhaglen Ysgolion natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig. Rhoddodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol drosolwg ar gynllun y safle a'r pwyntiau mynediad ac eglurodd ein bod yn gweithio i gyflawni Sero Carbon Net

| **Cwestiynau / Materion** | **Ateb / Sylwadau** |
|---|---|
| XX: Roeddech yn sôn y bydd yr ysgol yn elwa o olau naturiol; pa nodweddion eco eraill fydd wedi eu cynnwys (gwres, ynni solar). | XX: Bydd yr adeilad wedi ei ddylunio yn unol â'r ymrwymiad tymor hir tuag at leihau carbon a chyflawni adeiladau Carbon Sero Net. Byddwn yn disgwyl gweld mwy o insiwleiddiad mewn lloriau, waliau, toeau a gwydr a nifer sylweddol o baneli solar, pympiau gwres o'r aer ac o'r ddaear. Mae'n annhebygol o gael cyflenwad nwy. Fe fydd cyflenwad trydan i ategu'r paneli solar.<br><br>XX: Rydych chi'n dweud ein bod yn annhebygol o gael gwres nwy. Sut bydd hyn yn gweithio i gynhesu'r dŵr yn y pwll nofio?<br><br>XX: Dylai gael ei gynhesu gan y pympiau gwres o'r aer/y ddaear. Rwyf yn dychmygu y bydd gennych gyfuniad o'r ddau. Tasg y contractwr mecanyddol fydd ei gynllunio i gydymffurfio ag adeiladau Carbon Sero Net. Mae gwresogi o'r ddaear yn dod â gwres cynnes o'r ddaear, yn yr un modd mae ffynhonnell aer yn tynnu aer o'r tu allan ac yn cymryd llai o ynni i'w gynhesu. Bydd ar y |

| | |
|---|---|
| | pwll angen peth ynni, gallent gyfuno ynni solar â ffynhonnell gwres. |
| XX: Mae'r traffig y tu allan i'r ysgol ar Heol Ewenni yn brysur iawn, yn enwedig pan fydd tacsis a bysiau mini'r ysgol yn gorfod ciwio. Sut byddwch chi'n ymdrin â mynediad i'r ysgol newydd; mae'r gylchfan yn dagfa.<br><br>XX: byddai hynny'n dda iawn, diolch.<br><br>XX: Roedd arnaf eisiau gwneud sylw bod ystâd dai Broadlands yn defnyddio'r gylchfan fychan bach. | Rhannodd XX gynllun y safle ar y sgrin a rhoddodd drosolwg o'r pwyntiau mynediad. Rydym wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gludiant (AEC) mewn perthynas â'r cynnig. Mae'r AEC wedi ystyried rhwydwaith y priffyrdd ac rydych chi'n gywir, mae yna bwysau ar y gylchfan hon. Mae yna gynnig i wneud gwelliannau i'r gylchfan drwy gyflwyno lôn ychwanegol ar y rhwydwaith priffyrdd. Gallaf anfon e-bost atoch gyda manylion yr hyn y maent yn bwriadu ei wella, fel y byddwch yn deall sut y gall ein cydweithwyr priffyrdd liniaru'r risgiau sy'n ymwneud â'r gylchfan<br><br>XX: Rydych chi wedi codi dau bwynt pwysig. Rydym yn disgwyl tagfeydd ac fe'i nodir yn yr AEC, bydd yn rhaid inni edrych am atebion. At hynny, rydych yn codi pwynt da ynghylch cludiant i ddysgwyr. Mae XX wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y ddarpariaeth gludiant yn briodol i drigolion yr ardal ac i leihau effaith teithiau hir ar ein pobl ifanc.<br><br>XX: Mae plant yn teithio o bob rhan o'r fwrdeistref sirol i Ysgol Heronsbridge ac mae nifer fechan iawn yn teithio o'r tu allan i'r sir. Mae nifer y bysiau mini a thacsis sy'n ciwio y tu allan, gan gynnwys traffig o Ysgol Gynradd Oldcastle ac Ysgol Brynteg, bob bore a nos yn achosi tagfeydd. Chafodd yr isadeiledd priffyrdd y tu allan i'r ysgol ddim ei adeiladu ar gyfer maint y traffig yr ydym yn ei brofi erbyn hyn. Mae gennym system un ffordd, un lôn ar safle'r ysgol ac mae'n rhaid i ni weithredu "cyfnod dim symud cerbydau" er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion a staff. Mae hyn i gyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar Heol Ewenni. Os bydd y cynigion yn mynd yn eu blaenau ar y safle newydd, bydd gennym ffordd breifat, (a rennir gyda chanolfan tennis arfaethedig) a dychmygaf y bydd gennym system i mewn ac allan gyda man gollwng mawr. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y bydd yn ychwanegu pwysau ar y gylchfan fel y soniasoch a bydd angen i dîm Priffyrdd CBSP edrych am atebion ar gyfer hynny. |

| | |
|---|---|
| | Darllenodd XX ran o adroddiad y Cabinet yn manylu ar sylwadau'r adran briffyrdd ynglŷn â'r AEC, a ddaeth i'r casgliad, os bydd yr awdurdod lleol yn gwneud y gwelliannau a argymhellwyd, na fydd materion yn cael eu gwaethygu wrth symud yr ysgol i Fferm yr Ynys. |
| XX: Mae'r prosiect hwn yn gyffrous iawn! | XX: Rydym ninnau'n meddwl hynny hefyd. Pan oeddem yn siarad â'r dysgwyr, roedden nhw'n wirioneddol gyffrous, ac mae ganddyn nhw lawer o syniadau ar gyfer yr ysgol newydd. Mae arnom wir eisiau i hyn fod yn rhywbeth arbennig ar gyfer addysg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. |
| Diolchodd XX i bawb am eu hamser, eu cwestiynau a'u sylwadau. Rhaid derbyn yr holl sylwadau ac adborth erbyn 18 Mai 2022. Bydd canlyniad y broses yn cael ei adrodd i'r Cabinet ym mis Mehefin a gwneir penderfyniad a ddylid symud ymlaen â hysbysiad cyhoeddus. | |

**ATODIAD 3**

| **Ymgynghoriad Ysgol Heronsbridge<br>â Staff yr Ysgol<br>Dydd Llun 25 Ebrill 2022<br>am 2:30 y prynhawn** |
|---|

Presennol: Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwr y Rhaglen Ysgolion
Swyddog Adnoddau Strategol a Chynllunio
Prif Gynorthwyydd Pensaernïol
Rheolwr Grŵp, Cymorth i Ddysgwyr
Pennaeth, Ysgol Heronsbridge
Prif Seicolegydd Addysg

Cyflwynodd y Pennaeth y sesiwn ymgynghori a chyflwynodd y tîm eu hunain. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bwrpas y cyfarfod. Eglurodd Rheolwr y Rhaglen Ysgolion, Moderneiddio Ysgolion, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig. Rhoddodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol drosolwg ar gynllun y safle a'r pwyntiau mynediad ac eglurodd ein bod yn gweithio i gyflawni Sero Carbon Net.

| **Cwestiynau / Materion** | **Ateb / Sylwadau** |
|---|---|
| Fydd yr ysgol newydd yn medru ymdopi â'r galw am leoedd yn y dyfodol?<br><br>Ychwanegodd XX y gallai ysgol arbennig fwy na 300 o leoedd olygu na fyddai'r dysgwyr yn cael teimlad pwrpasol a phersonol i'w haddysg. | XX: Mae Ysgol Heronsbridge a'r awdurdod lleol wedi cydweithio'n agos iawn ar y broses lleoedd. Mae'r tîm wedi olrhain ffigurau rhagamcanion disgyblion o bump a deng mlynedd yn y gorffennol a'r dyfodol. Mae nifer sefydlog o leoedd y mae angen inni eu llenwi. Yr her yw bod nifer y lleoedd sydd ar gael yn dibynnu ar nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol. Byddwn yn ymgorffori darpariaeth feithrin nad ydym wedi ei chael yn Heronsbridge ers blynyddoedd lawer, ac rydym yn hyderus bod lle i 300 yn gynaliadwy ac na fyddwn yn tyfu tu hwnt i hyn. |
| Ar hyn o bryd does gennym ni ddim digon o gyfleusterau ychwanegol fel therapi adlam a hydrotherapi. Fydd y lleoedd ychwanegol hyn yn cael eu cynnwys yn yr adeilad newydd? | XX: Bydd yr adeilad newydd yn cael ei ddylunio yn unol â Bwletin Adeiladu 104 (BB104). Unwaith y bydd contractwr dylunio ac adeiladu wedi cael ei benodi, byddwn yn cynnal cyfres o sesiynau ymgynghori a dylunio gyda'r ysgol. Mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio gyda chi gan mai chi yw'r arbenigwyr yn yr hyn sydd arnoch ei angen |

| | |
|---|---|
| Ychwanegodd XX ei fod wedi bod yn rhan o'r broses ers y dechrau ac y bydd yn parhau i fod yn gyfranogwr gweithredol drwy gydol y broses gyfan. Byddwn yn ymwneud yn helaeth â phenderfyniadau ynghylch sut y caiff y lleoedd eu defnyddio. Mae Heronsbridge yn ysgol ragorol. Rydym yn gwybod y bydd y cyfleusterau sydd gennym eisoes yn cael eu hymgorffori yn yr ysgol newydd. Caiff yr ysgol newydd ei hadeiladu o fewn cyfyngiadau BB104 a'r gyllideb sydd ar gael. Mae'n bwysig inni ddod o hyd i ateb ar gyfer y pwll nofio, y pwll hydrotherapi a'r ystafelloedd adlamu. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r tîm yn ystod y cyfnod dylunio ac adeiladu | ar gyfer yr ysgol. Er enghraifft, mae BB104 yn dyrannu mannau llyfrgell; mae'r pennaeth wedi egluro nad oes angen cymaint o le i lyfrgell ar yr ysgol ac y byddai'n well ganddi gael mwy o le adlamu. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i sicrhau bod yr hyn y mae arnoch ei angen yn cael ei ddarparu o fewn yr arwynebedd llawr a neilltuwyd. |
| Sut mae'r awdurdod lleol yn darparu ar gyfer dysgwyr y tu allan i'r awdurdod?<br><br>Ychwanegodd XX fod yna nifer o ddysgwyr sy'n derbyn gofal o dan Gyngor Rhondda, ond eu bod yn byw yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cael eu dosbarthu fel dysgwyr y tu allan i'r awdurdod. | XX: Ar hyn o bryd mae gennym tua 13/14 o ddysgwyr y tu allan i'r awdurdod.<br><br>XX: Yn 2011 roedd nifer y dysgwyr yn 221. Er bod y staff yn teimlo pwysau cynyddol i dderbyn dysgwyr ychwanegol yn Ysgol Heronsbridge, o ran y twf yn yr un mlynedd ar ddeg diwethaf, mae'r niferoedd wedi cynyddu tua 20. Cyflwynwyd meini prawf derbyn newydd yn 2013 a gwnaethom benderfyniad bryd hynny y gallai dysgwyr a oedd eisoes yn mynychu'r ysgol barhau i fynychu ac y byddem yn cynnal yr ymrwymiad a wnaethom i awdurdodau lleol eraill. Mae wedi bod yn y polisi ers blynyddoedd lawer nad oes gennym y gallu i gynnig lleoedd i ddysgwyr sy'n byw y tu allan i Sir Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>XX: Fe fydd yna eithriadau bob amser, er enghraifft, mae yna ddysgwr sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac sydd wedi mynychu Ysgol Heronsbridge ers nifer o flynyddoedd ac oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth, symudodd y tu allan i'r awdurdod. Penderfynasom fel awdurdod lleol ac ysgol, ei bod er lles gorau'r dysgwr i barhau â'i addysg yn Ysgol Heronsbridge. Caiff ei ddosbarthu fel un y tu allan i'r awdurdod; rydym yn gweithio gyda'i awdurdod lleol i gynnal dilyniant i'r dysgwr. Cysylltir â ni drwy geisiadau o'r tu allan i'r sir, ac rydym yn gwrthod yn unol â'r polisi ac am nad oes gennym y capasiti. |

| | |
|---|---|
| Wrth i'r prosiect ddatblygu ac adeiladu ddechrau, a fydd barn y staff yn cael ei hystyried wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo? | XX:  Bydd sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu cynnal mewn perthynas â'r dyluniad, a bydd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a dysgwyr. Caiff y sesiynau hyn eu harwain gan y contractwr dylunio ac adeiladu unwaith iddo gael ei benodi. Mae'n hanfodol bod pawb yn cymryd rhan ac yn cael mewnbwn. |
| A fydd rhan wedi'i dynodi ar gyfer darpariaeth breswyl ac os felly, beth fydd y capasiti? | XX:  Bydd dau dŷ gyda phedair ystafell wely yn rhan o'r ysgol ac yn ychwanegol at hyn bydd tai gwasanaethau cymdeithasol, pedwar tŷ i gyd. Byddwn yn gwneud i'r tai deimlo'n gartrefol yn hytrach nag yn rhan o'r ysgol.<br><br>Ychwanegodd XX mai'r nod yw gwneud i'r tai deimlo fel cartref, nid bloc neu uned breswyl. Mae arnom eisiau iddyn nhw edrych a theimlo fel cartrefi gyda drysau, ffenestri a gerddi. |
| Sut mae caniatâd cynllunio yn gweithio, a fydd y caniatâd ar gyfer safle Heronsbridge yn unig, neu a fydd yn ffurfio rhan o Fferm yr Ynys?<br><br>Ydych chi'n rhagweld unrhyw wrthwynebiad / dadl yn erbyn y cynlluniau?<br><br>XX:  Does arnom ni ddim eisiau i'r ysgol effeithio'n negyddol ar ei chymdogion, mae gennym gyfle i gael y dyluniad yn iawn, o'r cychwyn cyntaf. | XX: Pan fyddwn yn gwneud cais cynllunio, ar gyfer yr ysgol yn unig y bydd hynny, ni fydd yn rhan o'r cynnig ehangach ynglŷn â thai yn yr ardal.<br><br>XX: Mae gwrthwynebiad yn bosibl. Byddai angen inni weithio drwy'r broses hon.<br><br>XX: Mae'r trigolion yn rhydd i wrthwynebu'r cynllun os dymunant. Byddai'n rhaid i'w gwrthwynebiadau fod yn wrthwynebiadau cynllunio dilys. Mae yna bolisïau cynllunio cadarn yn eu lle y bydd yn rhaid i'r contractwr dylunio ac adeiladu gydymffurfio â nhw. Bydd ymgynghorydd cynllunio ar y tîm, fydd yn gwirio'r polisïau cynllunio ac yn gweithio gyda'r dylunwyr. |
| Beth fydd yn digwydd i safle presennol yr ysgol? | XX: Does dim penderfyniad wedi cael ei wneud eto. Byddai defnydd y safle presennol yn y dyfodol yn destun gwerthusiad o ddewisiadau a phenderfyniad Cabinet yn y dyfodol, yn dibynnu ar ganlyniad llwyddiannus y broses statudol i adleoli Ysgol Heronsbridge. Mae Ysgol Heronsbridge yn adeilad hanesyddol pwysig ac wedi ei restru gan Cadw, mae hyn yn golygu y bydd yr adeilad yn parhau, ond nid yw'n hysbys eto sut y caiff ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mae arnom eisiau ymgorffori hanes eich ysgol yn yr adeilad newydd, ac |

| | |
|---|---|
| | felly byddwn yn ceisio ymgorffori nodweddion fel cloc yn nyluniad yr ysgol newydd. |
| Nid yw’r seilwaith cludiant o ran y mannau gollwng a chasglu presennol yn ddigonol ac mae problemau gyda diffyg digon o leoedd parcio i staff. | XX: Mae yna ganllawiau awdurdodau lleol ar gyfer mannau parcio a gollwng, ond nid oes canllawiau ar gyfer ysgolion arbennig. Bydd angen trafod hyn ymhellach gyda'n tîm priffyrdd a swyddogion cynllunio.<br><br>Ychwanegodd XX y bydd gwell cyfleusterau yn yr ysgol newydd o gymharu â'r hyn sydd gan yr ysgol ar hyn o bryd |
| Pa nodweddion amgylcheddol fydd yn cael eu cynnwys wrth ddylunio ac adeiladu i ddiogelu'r ysgol at y dyfodol? | XX: Mae hyn yn rhan bwysig o ddatblygiadau newydd. Bydd yr adeilad yn cael ei ddylunio yn unol â’r ymrwymiad hirdymor tuag at leihau allyriadau carbon a chyflawni adeiladau Di-Garbon Net ac rydw i’n disgwyl y bydd y safonau’n codi erbyn inni gyrraedd cam adeiladu’r prosiect hwn. Bydd angen i'r contractwr ystyried ei ddefnydd o garbon yn ystod y gwaith adeiladu a bydd yn rhaid iddo ystyried carbon gydol oes, er enghraifft dewis deunyddiau isel mewn carbon. Mae'n rhaid inni adael y safle mewn cyflwr bio-amrywiol gwell. Mae gan Fferm yr Ynys nifer o faterion ecolegol, ond mae gan safle'r ysgol lawer o gyfleoedd i wella a chynyddu ei ecoleg a'i fioamrywiaeth. |
| Fydd yna gyfleusterau i barcio beiciau? | XX: Yn ogystal â safonau Di-Garbon Net, mae gofyniad i gyflawni yn unol â Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Prydeinig (BREEAM). Mae'r safonau hyn yn cynnwys cyfleusterau beicio, fydd yn cael eu cynnwys yn yr ysgol |
| Roeddwn yn ymwneud ag adeiladu ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Betws a gallaf sicrhau pawb bod y tîm yn gwrando ac yn gweithio'n dda gyda'r staff. Er bod pryderon am yr ysgol newydd, dylem oll fod yn gyffrous iawn ynglŷn â’r cyfle hwn. | |
| A fydd hanes Fferm yr Ynys yn cael ei gynnwys yn yr adeilad newydd? | XX: Dydw i ddim yn siŵr; mae’n bosibl. Ni fyddwn yn cyffwrdd â chwt gwersyll carcharorion rhyfel 9. Gall XX a XX drafod sut i gysylltu hyn â'r ysgol. |
| Mae gennym berllan unigryw 100 mlwydd oed yn yr ysgol. A gawn ni hon yn yr ysgol newydd? | XX:  Soniodd y dysgwyr am hyn yn eu cyfarfod ymgynghori. Fe'u sicrhawyd gennym y byddwn yn dyrannu rhan ar y llun i nodi lle gellir lleoli perllan. Byddwn yn |

| | |
|---|---|
| | siarad â'r contractwr i wirio a allwn symud rhai o'ch coed i'r safle newydd, neu a fydd yn rhaid i ni blannu coed newydd.<br><br>XX: Bydd y contractwr yn darparu coed a gwrychoedd newydd fel rhan o'r prosiect. Bydd angen i ni asesu a oes modd adleoli'r coed mwy o faint ar y safle presennol. Bydd angen i arbenigwr coedyddiaeth cymwys wirio beth sydd o dan y ddaear. |
| Diolchodd XX a XX i bawb am eu hamser, eu cwestiynau a'u sylwadau. | |
| Diolchodd XX i bawb am eu hamser a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at symud y prosiect hwn yn ei flaen. Mae'r adeilad presennol yn heneiddio ac, er hyn, mae staff yr ysgol wedi sicrhau canlyniadau rhagorol. Mae’r ymdrechion i gefnogi a gofalu am ddysgwyr a phobl ifanc, yn enwedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi bod yn nodedig. Byddwn yn ad-dalu i chi fel awdurdod lleol drwy fuddsoddi yn eich ysgol i’w gwneud yn addas ar gyfer y dyfodol. Fe fydd yna ambell rwystr yn ystod y prosiect, ond rydym wedi ymrwymo i wneud y gorau oll i chi fel staff a thros y dysgwyr ac mae arnom eisiau i chi fod yn rhan o’r broses gyfan; chi yw'r arbenigwyr a byddwn yn gwneud ein gorau i gwrdd â'ch anghenion. | |

**ATODIAD 4**

**Ymgynghoriad Ysgol Heronsbridge**
**Cyfarfod Ymgynghori â Dysgwyr yr Ysgol**
**Dydd Llun 4 Ebrill 2022**
**am 2 y prynhawn.**

Presennol: Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwr y Rhaglen Ysgolion
Swyddog Adnoddau Strategol a Chynllunio
Prif Gynorthwyydd Pensaernïol
Rheolwr Grŵp, Cymorth i Ddysgwyr
Pennaeth, Ysgol Heronsbridge
Pennaeth Lles, Ysgol Heronsbridge
Dysgwyr Ysgol Heronsbridge (x8)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y sesiwn ymgynghori ac eglurodd bwrpas y cyfarfod. Cyflwynodd y dysgwyr a'r tîm eu hunain. Eglurodd Rheolwr y Rhaglen Ysgolion, Moderneiddio Ysgolion, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig.

| <u>**Cwestiynau/Materion**</u> | <u>**Ateb/Sylwadau**</u> |
|---|---|
| XX: Fydd yna heol dawel yn mynd at yr ysgol newydd? | XX: Bydd yr heol yn dawel, Dim ond at ddau adeilad y bydd yr heol yn arwain; Ysgol Heronsbridge a chanolfan dennis arfaethedig. |
| XX: Faint o amser fydd hi yn ei gymryd i adeiladu'r ysgol? | XX: Bydd yn cymryd rhwng deunaw ac ugain mis i'w hadeiladu (blwyddyn a hanner). |
| XX: Fydd yna Neuadd fwy ar gyfer gwasanaeth? | XX: Gobeithio y bydd y Neuadd yr un maint â'r Neuadd sydd gennych ar hyn o bryd. Mae angen i ni gydymffurfio â'r canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch arwynebedd y llawr. Allaf i ddim cadarnhau maint y neuadd ar hyn o bryd. |
| XX: Fydd yna CCTV? | XX: Bydd, fe fydd yna CCTV yn yr ysgol i sicrhau bod yr ysgol a'i chymuned yn cael eu diogelu. |
| XX: Beth fydd yn digwydd i hen adeilad yr ysgol? | XX: Allwn ni ddim ateb y cwestiwn yma eto. Mae angen ystyried y syniad ar gyfer y prosiect hwn ac unwaith y byddwn wedi cael adborth gan bawb, bydd y Cabinet yn penderfynu a fydd y prosiect hwn yn mynd yn ei flaen. Fel yr ydych yn gwybod efallai, mae Ysgol Heronsbridge yn adeilad hanesyddol o bwys sy'n cael ei ddiogelu gan Cadw, mae hyn yn golygu y bydd yr adeilad yn parhau i fodoli, ond dydym ni |

| | |
|---|---|
| | ddim yn gwybod eto sut y caiff ei ddefnyddio yn y dyfodol. |
| XX:  Fydd enw'r ysgol yn newid? | XX:  Y prifathro a llywodraethwyr yr ysgol fydd yn gwneud y penderfyniad yna.<br>XX:  Mae enw'r ysgol yn adnabyddus a dydym ni ddim yn bwriadu newid enw'r ysgol. |
| XX: Faint o fyfyrwyr fydd yna yn yr ysgol newydd? | XX:  Bydd tri chant o leoedd yn yr ysgol newydd. |
| XX:  Fydd gennym ni ystafell gerdd fwy? | XX:  Byddwn yn ceisio gwneud ystafell gerdd fawr i chi. |
| XX:  Fydd gennym ni ystafelloedd hamdden newydd? | XX:  Mae gennym ni lawer o ystafelloedd gwahanol ar gyfer gwneud gwahanol bethau. Ystafell hamdden ydy ystafell synhwyraidd dawel neu dangnefeddus.<br>XX:  Bydd, fe fydd yna ystafelloedd hamdden newydd. |
| XX:  Fydd gennym ni berllan yn ein hysgol newydd? | XX:  Ysgol Heronsbridge ydy'r unig ysgol ym Mhen-bont ar Ogwr sydd â pherllan. Mae gan rai ysgolion ysgol goedwig y tu allan. Fe fyddwn yn nodi llecyn ar gynllun y safle lle y gallwn blannu perllan yn yr ysgol newydd.<br>XX:  Mae rhannau o'r berllan yn gan mlwydd oed. Mae gennym ni goed afalau, gellyg, eirin a cheirios ac fe hoffem ni weld llawer o goed ffrwythau ar y safle newydd.<br>XX:  Byddwn yn siarad â'r contractwr i weld a oes modd adleoli rhai o'ch coed chi.<br>XX:  Mae arnom angen blodau ar gyfer ein gwenyn gan y byddwn ni'n mynd â'n cychod gwenyn gyda ni! |
| XX:  Fydd yna le chwarae meddal? | XX:  Bydd, byddwn yn creu lle chwarae meddal ysgogol gyda llawer o liwiau a siapiau ac yn cynnwys llwybr ar gyfer treiciau. Byddwn yn ceisio gwneud yr un peth ag sydd gennych chi'n awr. |
| XX:  Fydd yna bwll nofio? | XX: Bydd, fe fydd y pwll yn 8.5m x 10m o faint. Fe fyddwn yn gweithio gyda'ch pennaeth er mwyn sicrhau ein bod yn darparu pwll nofio addas ar eich cyfer chi. |
| XX:  Fydd yna bwll therapi dŵr?<br><br>XX:  Fydd y lle therapi dŵr ar wahân i'r pwll, neu fyddan nhw fel un? | XX:  Bydd ein dylunwyr yn cynnwys therapi dŵr fel rhan o'r pwll nofio.<br><br>XX:  Mae'n rhaid inni ddilyn y canllawiau sydd wedi eu hamlinellu ym Mwletin Adeiladu Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gweithio gyda'r contractwr a'r ysgol i sicrhau y bydd yn addas ar gyfer anghenion yr ysgol. |

| | |
|---|---|
| XX: Fydd gennym ni lain “dym” newydd? (esboniodd XX mai llain “dym” yw’r enw ar eu llain 3G). | XX: Bydd, fe fydd gennych chi lain “dym” newydd. |
| XX: Fydd y cloc yn dod gyda ni? | XX: Mae adeilad yr ysgol yn cael ei ddiogelu gan Cadw ac efallai na chawn ni symud y cloc i ysgol newydd. Fodd bynnag, rydym ni’n gwybod mor bwysig ydy’r cloc i chi ac fe fyddwn ni’n ceisio creu cloc tebyg ar gyfer eich ysgol newydd. Rydym ni’n gwybod ei fod yn canu bob chwarter awr, ac felly fe geisiwn ni raglennu’r cloc newydd i wneud yr un peth. |
| XX: Fydd gennym ni ystafell adlamu? | XX: Bydd, fe fydd gennych chi ystafell therapi adlamu. Mae ar eich pennaeth eisiau inni gynnwys pedair ystafell. |
| XX: Allwn ni gael mwy o offer chwarae a pheli? | XX: Cewch fynd â’ch holl offer chwarae presennol gyda chi i’r ysgol newydd ac, at hynny, fe fydd gennym ni arian fydd yn ein galluogi i brynu dodrefn ac offer chwarae newydd i chi. |
| XX: Mae arnom ni angen lleoedd mwy diogel i’r dysgwyr chwarae; iardiau chwarae mwy o faint a mynediad yn syth o’r ystafelloedd dosbarth. | XX: Mae diogelwch o’r pwys mwyaf. Fe fydd gan yr ysgol ffens ddiogelwch a giatiau.<br><br>XX: Mae XX yn dylunio ein hysgolion. Fe hoffwn i weld pa ddyluniadau y gall y dysgwyr eu creu ar gyfer eu hysgol. Fe hoffwn i osod cystadleuaeth i chi i gyd i ddylunio sut yr hoffech chi i’ch ysgol edrych ac i chi anfon eich syniadau atom ni. Mae arnom ni eisiau creu’r ysgol orau yng Nghymru. Bydd XX/XX/XX yn edrych ar eich dyluniadau ac fe allwn ni roi gwobrau am y syniadau gorau. |
| XX: Fydd gennym ni ystafell arlunio? | XX: Bydd. |
| XX: Oes yna rywle y gallwn ni fynd am dro?<br>XX: Rydym ni’n cerdded milltir bob dydd o gwmpas yr ysgol. Mae’n bwysig iawn i’r dysgwyr. | XX: Fe fydd llwybr o gwmpas y terfyn o fewn lein y ffens o amgylch yr ysgol i chi gerdded eich milltir ddyddiol. |
| XX: Oes yna oleuadau newydd? | XX: Fe fydd yna oleuadau newydd y tu mewn a’r tu allan i’r ysgol, yn cynnwys rhan y maes parcio. |
| XX: Fydd yna lifoleuadau ar y cae pêl-droed? | XX: Dydy llifoleuadau ar gyfer y llain ddim wedi eu cynnwys yn y cynllun hwn; fodd bynnag, byddwn yn cynnwys y seilwaith ar gyfer colofnau llifoleuadau yn y cynllun hwn fel y gellir eu cynnwys yn y dyfodol. |
| XX: Fydd gennym ni gae pêl-droed newydd? | XX: Fe fydd gennych chi gae pob tywydd. |
| XX: Fydd gennym ni neuadd newydd? | XX: Bydd fe fydd gennych chi neuadd newydd. |

| | |
|---|---|
| XX: Fydd gennym ni ardd cegin newydd? | XX: Fe fydd yna lawer o fannau gwyrdd agored. Gallwn ddweud wrth y contractwyr yr hyn y mae arnoch chi ei eisiau, ac fe fyddant yn eu cynnwys yn yr ysgol newydd.<br>XX: Gallwn ddatblygu rhandir i chi gael tyfu eich cynnyrch. |
| XX: Fydd gennym ni iard newydd y tu allan? | XX: Bydd fe fydd gennych chi iard newydd. |
| XX: Fydd gennym ni siglenni? | XX: Bydd angen inni siarad â'ch pennaeth i benderfynu faint sydd arno eu heisiau a ble I'w gosod. |
| XX: Fydd gennym ni wal ddringo?<br>XX: Rydym ni'n defnyddio'r ganolfan adloniant ar hyn o bryd.<br>XX: Gall yr ysgol helpu i godi arian tuag at offer chwarae a gweithgareddau awyr agored. | XX: Gallwn ystyried codi un. |
| XX: Allwn ni gael mwy o beli rygbi? | XX: Gellwch. |
| XX: Fydd ceir yn cael eu glanhau? | XX: Gobeithio y down o hyd i le ar gyfer glanhau ceir. Bydd angen inni greu rhestr i'w rhannu gyda'r contractwr o'r holl bethau sy'n bwysig i chi i fynd I'r ysgol newydd. |
| XX: Fe hoffem ni wahodd y contractwyr i'n hysgol er mwyn iddynt gael gweld sut yr ydym yn gweithio, cwrdd â'r dysgwyr a gweld mor hapus ydynt. Mae'n bwysig adeiladu ysgol sy'n cwrdd ag anghenion y plant. | |
| XX: Fyddwn ni'n cael cyfrifiaduron gwell?<br>XX: Mae cysylltedd yn yr ysgol yn lleciog ac mae peth o'r offer yn hen. | XX: Fe fydd gennych chi gyfrifiaduron newydd. |
| XX: Gawn ni fwy o lifftiau? | XX: Rydw i'n gwybod mai dim ond un lifft sydd yn eich ysgol yn awr a'i bod yn fychan iawn. Bydd gennych ddwy lifft o leiaf yn yr ysgol newydd ac fe fyddan nhw o'r maint cywir.<br>XX: Cytunwyd y bydd dwy lifft o leiaf ar gyfer maint yr adeilad. |
| XX: Fydd gennym ni eco-gaban?<br><br>XX: Agorodd yr eco-gaban yn 2013 ac roedd yn costio £60 mil. Codwyd yr arian dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae ynddo gyfleusterau dŵr a thrydan Mae'n cynnig lle dysgu allanol ardderchog. | XX: Efallai y gallwn adleoli eich eco-gaban i'r safle newydd Byddwn yn edrych ar y dewisiadau i chi. Byddwn yn gofyn i'n peiriannydd strwythurol a oes modd ei symud. |
| XX: Fydd gennym ni ystafell sgiliau byw? | XX: Bydd. |
| XX: Fydd gennym ni siop goffi?<br><br>XX: Mae siop goffi yn bwysig iawn i'n dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16. Maent yn dilyn cymwysterau mewn hylendid | XX: Efallai y bydd yna le i siop goffi. Bydd angen inni weithio gyda'ch pennaeth a staff eich ysgol yn ystod camau dylunio'r prosiect. |

| | |
|---|---|
| bwyd, lletygarwch, paratoi bwyd ac iechyd a diogelwch. Mae angen inni gadw'r siop goffi a'r gegin hyfforddiant. | |
| XX: Allwn ni gael ystafelloedd ymolchi mwy a gwell? | XX: Gellwch. Byddwn yn darparu ystafelloedd ymolchi gwell, mwy o leoedd addysgu, lifftiau, coridorau a digonedd o leoedd i storio. |
| XX: Diolchodd i bawb am eu cyfraniadau a'u cwestiynau ardderchog. Bydd XX yn siarad â'r pennaeth i drefnu'r "gystadleuaeth Dylunio eich Ysgol" ac anogodd y grŵp i anfon eu syniadau atynt. Ychwanegodd XX y gall hon fod yn gystadleuaeth i'r ysgol i gyd. | |

**ATODIAD 5**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

**Ymgynghoriad Ysgol Heronsbridge**
**Digwyddiad Agored**
**Dydd Llun 25 Ebrill 2022**
**am 5 y prynhawn.**

Presennol: Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwr y Rhaglen Ysgolion
Swyddog Adnoddau Strategol a Chynllunio
Prif Gynorthwyydd Pensaernïol
Rheolwr Grŵp, Cymorth i Ddysgwyr
Pennaeth, Ysgol Heronsbridge
Prif Seicolegydd Addysg

Dim mynychwyr.

**ATODIAD 6**

**Gohebiaeth Uniongyrchol a Dderbyniwyd:**

Fedrwch chi gadarnhau, os gwelwch yn dda, ble yn y ddogfen ymgynghori mae’n esbonio beth fydd yn digwydd i’r adeilad os bydd yr ysgol yn cael ei hadleoli?

**Ymateb yr Awdurdod Lleol:**

Prynhawn da

Mae tudalen 21 y ddogfen ymgynghori yn esbonio, os bydd y cynnig i adleoli Ysgol Heronsbridge yn mynd yn ei flaen, y bydd y cabinet yn penderfynu yn y dyfodol ynghylch safle presennol yr ysgol yn Heol Ewenni Pen-y-bont ar Ogwr.

Cofion gorau

**Gohebiaeth Uniongyrchol a Dderbyniwyd:**

Annwyl  XX

Diolch am y cyfle i ymateb i gynnig Heronsbridge i adleoli’r ysgol i Fferm yr Ynys.

Mae fy Nghyngor o blaid yr Ysgol ar yr amod y gellir mynd i'r afael â'r pryderon canlynol. Lleisiwyd y pryderon hyn o’r blaen yn yr ymgynghoriad ar gyfer yr academi Dennis.

Mae llwnc-dyllau i’w gweld ar y safle ac mae’r rhain yn ymddangos heb unrhyw rybudd. Roedd yr un diweddaraf ar y safle lle y bwriedid lleoli’r academi dennis, yn agos i lein y rheilffordd ac ers hynny mae wedi cael ei lenwi gan berchennog y tir. A fyddai arolwg strwythurol yn canfod unrhyw bosibilrwydd i hyn ddigwydd ar y safle a fwriedir ar gyfer yr ysgol?

Rhestrwyd ffordd Rufeinig sy’n rhedeg drwy’r safle. Mae ar y Cyngor hwn eisiau i Archeolegydd fod yn bresennol ar bob cam o waith cloddio’r safle oherwydd y tebygolrwydd o olion Rhufeinig.

Cofnodwyd rhywogaeth bwysig o famaliaid bychain a phoblogaethau ystlumod ar y safle a byddai angen arolwg amgylcheddol iawn.

Mae'r rhan restredig ar gyfer cadw graean a echdynnwyd wedi'i chofnodi ar y safle fel y’i gwelwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol diwethaf. Os yw hwn bellach wedi'i ddileu, nid yw Cyngor Cymuned Merthyr Mawr wedi cael gwybod. Ni ddylid anwybyddu ystyriaeth ar gyfer y gwaith cadw hwn.

Mae’r traffig ar yr A48 a Heol Ewenni i gyd yn arwain at gylchfan Ewenni yn ystod cyfnodau gwyliau ac mae’r oriau brig eisoes yn achosi tagfeydd traffig a phryderon am ansawdd aer. Byddai ar y Cyngor hwn eisiau adroddiad traffig llawn a fyddai hefyd yn cymryd i ystyriaeth y mynediad tebygol i leoliad newydd yr academi dennis.

Unwaith eto diolch am y cyfle i roi sylwadau ar y cynnig ar gyfer Ysgol Newydd Heronsbridge.

Yn gywir

**Ymateb yr Awdurdod Lleol:**

Annwyl Gynghorydd XX

Diolch am eich e-bost ynghylch yr uchod.

Dymunaf gadarnhau y caiff eich sylwadau eu nodi’n fanwl yn yr Adroddiad Ymgynghori i’r Cabinet, ynghyd â’r ymateb canlynol gan yr awdurdod lleol:

Mae swyddogion CBSP yn ymwybodol o broblem bosibl llwnc-dyllau. Unwaith y bydd cynllun y safle wedi cael ei benderfynu a lleoliad yr adeiladau wedi eu pennu, cynhelir ymchwiliadau tyllau chwilio er mwyn penderfynu a oes unrhyw broblemau o dan olion traed yr adeilad a allai arwain at ffurfio llwnc-dwll.

Er mwyn lleihau hyn, mae'n debygol y byddai sylfaen rafft yn cael ei ddefnyddio fel datrysiad ar yr adeiladau newydd. Câi unrhyw ddraeniad o dan yr adeiladau newydd ei gadw i'r lleiafswm er mwyn atal gollyngiadau a dylai’r draeniad o dan ôl troed yr adeilad yn ddelfrydol ddefnyddio pibellau heb uniad, megis polypropylen a bod wedi eu lapio mewn concrid wedi'i atgyfnerthu i'w wneud yn un â'r prif sylfeini rafft. Byddai'r contractwr dylunio ac adeiladu yn cael ei hysbysu am y gofyniad hwn.

Gyda golwg ar eich sylw ynglŷn â ffordd Rufeinig restredig, bydd y Cyngor yn ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg a Gwent a'r Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch y mater hwn ac yn sicrhau y cedwir at yr holl amodau.

Gallaf gadarnhau y cynhelir asesiad ecolegol llawn ar y safle lle byddai’r ysgol yn cael ei datblygu.

O ran yr ardal restredig ar gyfer cadw graean a echdynnwyd, gallaf gadarnhau nad yw’r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) presennol yn dangos unrhyw rannau diogelu mwynau o fewn cyffiniau’r safle (gweler isod):



Ers mabwysiadu’r CDLl yn 2013, mae Map Adnoddau Mwynol Cymru wedi cael ei gynhyrchu ac ehangwyd maint yr ardaloedd diogelu mwynau ledled y fwrdeistref.

Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y CDLl Newydd a dangosir mwy o ardaloedd diogelu mwynau ar y Map Cynigion Adneuo a aeth allan i ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Mehefin - Gorffennaf 2021

Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r CDLl Newydd, mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi paratoi sail resymegol ar gyfer dyrannu'r safle i'w ddatblygu. Mae hwn yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae angen hollbwysig i ddarparu cyfleusterau addysg ac mae cyfres o chwiliadau safle wedi dangos nad oes unrhyw safleoedd addas eraill.
- Mae caniatâd cynllunio ar y safle yn barod.
- Mae agosrwydd y safle at ddatblygiad sensitif presennol (h.y. datblygiad preswyl) yn gwneud i ffwrdd ag unrhyw waith echdynnu'r adnoddau mwynau yn y dyfodol mewn dull masnachol.

Mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi ymgynghorwyr trydydd parti (Redstart/Capita) i gynnal Asesiad Trafnidiaeth (AT). Rhaid nodi, er nad yw swyddogion Rheoli Datblygu Priffyrdd yr awdurdod lleol wedi cael cyfle i asesu'r AT gan nad oes cais cynllunio wedi'i gyflwyno eto, mae Swyddog Trafnidiaeth Strategol wedi cynnal adolygiad cychwynnol o'r AT.

Er mwyn lliniaru effaith adleoli'r ysgol arfaethedig, mae'r AT wedi argymell gwella cyffordd ar gylchfan Ewenni. Yn yr achos hwn mae'r AT wedi dangos cyflwyno lôn ychwanegol wrth ddynesu at y gylchfan o'r gogledd (ar Heol Ewenni) ar gyfer symudiadau troi i'r chwith yn unig. Mae'r dyluniad lefel uchel hwn wedi'i ymgorffori o fewn ffiniau'r priffyrdd mabwysiedig.

Mae'r AT yn dod i'r casgliad, gyda'r mesur lliniaru hwn yn ei le, y gellir penderfynu bod y gwelliant cyffordd arfaethedig yn lliniaru effaith y datblygiad arfaethedig ar weithrediad cylchfan Ewenni i safon dderbyniol.

**Gohebiaeth Uniongyrchol a Dderbyniwyd:**

Hi XX

Gweler isod fel yr addawyd:

Mae'r Bont yn ganolfan plant a theuluoedd arbenigol ac unigryw sydd wedi'i lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, De Cymru, sy'n darparu ystod unigryw o wasanaethau dydd i blant ag anableddau, cyflyrau meddygol cymhleth, awtistiaeth sy'n dechrau dod i'r amlwg, syndrom Down, nam ar y golwg, nam ar y clyw a'u teuluoedd. Rydym yn cynnig cymorth a chyngor i rieni/gofalwyr ac yn darparu gwasanaethau seibiant 51 wythnos y flwyddyn, 6 diwrnod yr wythnos. Mae'r Bont yn elusen gofrestredig ac fe agorodd ei drysau ym 1997 ar ôl i grŵp o deuluoedd weld yr angen am ddarpariaeth hygyrch a diogel i blant anabl yn ein hardal. Yn y Bont credwn y dylid helpu pob plentyn ag anabledd i gyflawni ei botensial; rydym yn bodoli er mwyn eu helpu i wneud hynny. Rydym wedi ei gwneud yn genhadaeth i helpu plant a'u teuluoedd mewn amrywiaeth o ffyrdd drwy wybodaeth, cymorth ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol.

Ar hyn o bryd rydym yn darparu'r gwasanaethau isod

- Darpariaeth feithrin
- Darpariaeth Clwb ar ôl yr Ysgol
- Clwb dydd Sadwrn
- Clwb gwyliau

Yn ein darpariaeth feithrin ar hyn o bryd rydym yn cefnogi 25 o blant. 7 o blant â diagnosis o Awtistiaeth wedi cael ei gadarnhau, 4 o blant yn aros am ddiagnosis o Awtistiaeth, 2 o blant â Syndrom Down, 11 o blant â chyflwr meddygol ac 1 plentyn ag oedi datblygiadol cyffredinol. Bydd 6 o’r plant hyn yn mynd i Heronsbridge ym mis Medi 2022.

Ar hyn o bryd mae gennym ni 9 o blant o Heronsbridge sy'n defnyddio ein darpariaeth clwb ar ôl ysgol. Mae gennym 42 o blant cofrestredig sy'n defnyddio ein clwb gwyliau a chlybiau dydd Sadwrn; mae yna 19 o blant sy'n mynychu ysgol Heronsbridge sy'n defnyddio'r ddarpariaeth hon.

Gan fod y Bont wedi ei lleoli ar dir Ysgol Heronsbridge ar hyn o bryd, ac wedi bod ers 25 mlynedd bellach, rydym wedi meithrin perthynas waith gref iawn ac yn gweithredu fel llwyfan i lawer o blant cyn oed ysgol cyn iddynt symud ymlaen i Heronsbridge. Mae ein gwasanaethau presennol yn cydgysylltu ag ysgol Heronsbridge, ac mae llawer o'r plant sy'n mynychu’r ysgol yno yn defnyddio ein darpariaeth ar ôl ysgol ni.

Ar hyn o bryd, deuir â'r plant i'r Bont gan staff Heronsbridge. Gyda'r bwriad i symud i Fferm yr Ynys ni fyddai hyn yn bosibl mwyach. Mae hyn wedyn yn codi pryderon i'r rhieni ynghylch mynediad i'n darpariaeth clwb ar ôl ysgol. O fewn yr adborth i'r ymgynghoriad hoffem iddo gael ei nodi bod darpariaeth Clwb Ar Ôl Ysgol y Bont ar hyn o bryd yn wasanaeth sy'n cynnig cefnogaeth gref i blant a theuluoedd Ysgol Heronsbridge, ac na fyddai’r gwasanaeth hwn mor hygyrch i blant a theuluoedd ar ôl i’r ysgol symud. Felly, hoffem awgrymu cynnwys o fewn yr ymgynghoriad a’r cynlluniau adeiladu y byddai darpariaeth inni allu parhau i redeg ein Clwb ar ôl Ysgol sefydledig a gallu parhau i gefnogi plant a theuluoedd Ysgol Heronsbridge â’r gwasanaeth cofleidiol ychwanegol hwn.

Bob blwyddyn academaidd, byddwn yn gweithio gyda staff Heronsbridge i gefnogi’r plant sy’n mynychu’r Bont ar hyn o bryd i drosglwyddo’n esmwyth i Heronsbridge. Eto, dim ond trwy fod ar yr un tir ag Ysgol Heronsbridge y mae hyn yn bosibl. Deallwn yn yr ymgynghoriad ar yr adeilad newydd y bydd meithrinfa 6 lle, sef 6 o blant yn sesiwn y bore a 6 phlentyn yn sesiwn y prynhawn, yn cefnogi uchafswm o 12 o blant oed meithrin. Ym mis Medi 2021, am y nawfed flwyddyn academaidd, buom yn cefnogi cyfarwyddiaeth addysg yr awdurdod lleol drwy ddarparu lleoliadau gofal dydd i 11 o blant na ellid cynnig lle addas mewn ysgol iddynt oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti a lleoliadau. Ym mis Medi 2020 roedd gennym ni gyfanswm o 12 o blant.

Mae'r Bont yn eiriol ar ran y teuluoedd i sicrhau bod plant yn derbyn pecyn addysg sy'n gyfartal â'u cyfoedion yn yr ysgol, gan gynnwys cludiant. Drwy’r cytundeb hwn gyda’r awdurdod lleol rydym yn gallu darparu amgylchedd priodol i’r plant ddysgu a chwarae, i’w paratoi ar gyfer dysgu pellach. Mae hyn yn cefnogi datblygiad personol ac yn sicrhau nad yw plant yn cael eu gadael ar ôl, heb yr ymyrraeth gynnar a'r lefel o sylw unigol sydd ei angen yn y cyfnod allweddol hwn yn eu datblygiad.

Teimlwn y dylid cynnwys y Bont yn yr ymgynghoriad am dendr ar gyfer y ddarpariaeth feithrin er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth bwydo i'r ysgol gan ddefnyddio ein haelodau staff sefydledig a chymwys.

Gyda Heronsbridge yn symud i Fferm yr Ynys byddai hyn nid yn unig yn gadael y Bont ar ei phen ei hun ar ei thir ond hefyd yn ein gadael mewn sefyllfa bryderus iawn ynglŷn â'n dyfodol, yn enwedig gan mai elusen ydym.

I grynhoi ein nodiadau, hoffem i’r Bont:

- Gael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad i gael darpariaeth addas i barhau â'n darpariaeth Clwb Ar Ôl Ysgol sefydledig i barhau i gefnogi'r teuluoedd a'r plant sydd eisoes yn defnyddio'r Bont ac a fydd yn dod iddi yn y dyfodol agos.

- Cael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad ar dendr ar gyfer y ddarpariaeth feithrin, gyda chapasiti ychwanegol i'n galluogi i gefnogi rhagor o blant na fyddent yn oedran addysg a pharhau i fod yn feithrinfa ac elusen annibynnol (6 wythnos i 4 oed).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr uchod, rhowch wybod i mi, os gwelwch yn dda.

Llawer o ddiolch

**Ymateb yr Awdurdod Lleol:**

Annwyl XX

Diolch am eich e-bost ynghylch ymgynghoriad Ysgol Heronsbridge.

Cydnabyddir bod rhai dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Heronsbridge yn defnyddio'r clwb ar ôl ysgol a gynigir gan y Bont. Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i adleoli'r ysgol i Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr, gallai cael mynediad i'r ddarpariaeth yn y Bont achosi rhai heriau logistaidd. Fodd bynnag, o ystyried agosrwydd y ddau safle, gellid cludo dysgwyr i'r clwb ar ôl ysgol yn y Bont. Byddai angen gwneud trefniadau trafnidiaeth, ond nid yw hyn yn cael ei ystyried yn rhy anodd.

Bob blwyddyn mae lleoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir, sydd wedi eu cofrestru gydag Estyn, yn cefnogi'r awdurdod lleol i gynnig pecynnau ariannu arbenigol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cymhleth ar gyfer eu blwyddyn Feithrin. Mae'r Bont yn un o'r lleoliadau hyn.

Eleni, mae'r Bont yn cefnogi saith pecyn arbenigol ac mae lleoliadau eraill ar draws yr awdurdod lleol yn cefnogi 15. Yn y flwyddyn i ddod, bydd y Bont yn cefnogi chwe phecyn Blynyddoedd Cynnar arbenigol a bydd lleoliadau eraill yn cefnogi tua 19. Nid oes yr un o'r lleoliadau eraill hyn yn wedi'i gydleoli ar safle Ysgol Heronsbridge. At hynny, mae staff Ysgol Heronsbridge yn ymweld yn rheolaidd â lleoliadau ac ysgolion ar draws Sir Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi'r broses o dderbyn a lleoli yn yr ysgol.

Fel rhan o’r broses gadarn o adnabod ac asesu’r Blynyddoedd Cynnar, bydd gweithwyr proffesiynol profiadol yn nodi grŵp bach o blant Meithrin y bydd angen ymyriad addysgu arbenigol amlddisgyblaethol, amlsynhwyraidd parhaus arnynt mewn amgylchedd ysgol arbennig ar hyd eu profiad mewn ysgol. Dyma'r garfan sydd wedi'i chynllunio ar gyfer y ddarpariaeth Feithrin yn Ysgol Heronsbridge. Bydd yr awdurdod lleol yn dal i fod angen y pecynnau Meithrin mewn lleoliadau ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys y Bont.

Fel gyda phob lleoliad Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys y Bont, nid oes unrhyw athrawon ar y staff. Fodd bynnag, cânt eu cefnogi gan Swyddog Cymorth Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol. Bydd darpariaeth feithrin Ysgol Heronsbridge yn cynnig staff addysgu arbenigol.

Hyd yn hyn, nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Choleg Pen-y-bont wedi gwneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â dyfodol yr adeilad y mae'r Bont ynddo ar hyn o bryd. Bydd y Cabinet yn penderfynu ynglŷn â dyfodol safle presennol Ysgol Heronsbridge maes o law, yn dibynnu ar ganlyniad y broses statudol. Byddaf yn sicrhau eich bod yn cael gwybod am unrhyw gynnydd yn hyn o beth.

## ATODIAD 7

**Ymatebion (Arolwg Ar-lein Snap)**

**Ydych chi (rhowch dic):**

Rhiant/gwarcheidwad (25) 31%
Parti arall â diddordeb (dywedwch beth) (39) 48%
Staff yr ysgol (14) 17%
Llywodraethwyr yr ysgol (3) 4%
Disgybl yr ysgol (-)

**Ydych chi’n cefnogi’r cynnig?**

Ydw (51) 63%
Nac ydw (30) 37%

**Os nad ydych chi’n cefnogi’r cynnig – dywedwch pam, os gwelwch yn dda:**

Rydw i’n meddwl bod ar y plant angen cyn lleied o gyffro ag sydd modd ac y gall unrhyw newidiadau effeithio’n fawr ar eu personoliaethau.

Mae arnaf eisiau i’m mab barhau yn Ysgol Heronsbridge a pheidio â chael ei symud; gyda’r cynnig newydd hwn gallai gael ei symud a does arnaf i ddim eisiau hynny.

Mae’r ysgol ar safle mawr na ellir ei ddefnyddio yn barod, hefyd byddai ysgol newydd ar le gwyrdd agored.

Mae’r cynnig yn golygu adeiladu ar safle tir glas.

Mae’r A48 yn brysur yn barod. Dylid diogelu Fferm yr Ynys a’i gwneud yn atyniad i ymwelwyr ac mae arnom ni angen lleoedd agored.

Rydw i’n meddwl bod hyn yn golygu mynd â’r plant allan o’r ardal a’u gosod ar ymyl y dref. Ar hyn o bryd mae eu gofalwyr yn yr ysgol yn mynd â nhw allan fan hyn a fan draw ac rydw i wrth fy modd yn eu gweld.

Dylai’r ysgol ymuno gyda’r coleg

Ble ar Fferm yr Ynys? Ar safle tir llwyd y gellid ei adfer fel arall ar gyfer natur? Beth fyddai’n digwydd i’r hen safle? Ei werthu ar gyfer tai neu ei ddefnyddio i rywbeth arall? Fyddai’r pwll yn cau? Mae’r ysgol yn hardd ac mae ganddi gymaint o hanes ac mae llawer o’r tir wedi cael ei ddatblygu’n barod ond oes yna ryw ffordd i wneud yr adeiladau hynny ychydig bach yn fwy fel y gellir cadw’r adeilad a’i hanes? Mae’r A48 mor brysur fel y mae hi, heb ychwanegu mwy o adeiladau / mwy o flerdwf trefol a mwy o drafnidiaeth ac felly mwy o lygredd.

Dewis gwael ydy symud yr ysgol i’r safle. Dylid ei ddiogelu rhag adeiladu arno. Adeiladu ysgol rywle arall.

Dylid adfer Fferm yr Ynys fel safle hanesyddol, fe ddylai fod yn ardal restredig.

Diogelwch fannau gwyrdd. Diogelwch leoedd hanesyddol.

Mae hwn yn adeilad gwych bron i gan mlwydd oed a byddai dinistrio'r adeilad yma'n drychineb. Wedyn, byddai adeiladu ar Fferm yr Ynys yn golygu rhoi caniatâd i adeiladu cannoedd o dai hefyd, yn ogystal â dinistrio cymaint o gynefinoedd i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt yn enwedig pan ydych chi'n ceisio bod yn fwy gwyrdd.

Ni ddylid bod yn adeiladu ar leoedd gwyrdd pan fydd yna le mwy addas.

Gan fy mod yn teimlo y dylid gwario'r arian ar ddiweddaru'r adeilad presennol a'r amgylchedd o'i gwmpas, gyda'r posibilrwydd o ddefnyddio hen gampws Coleg Pen-y-bont.

Dydy'r seilwaith presennol ddim yn medru ymdopi â'r cerbydau ychwanegol, y bysiau a'r tacsis! Mae'r ffordd yn lle peryglus i ddamweiniau yn barod. Mae'r ffordd yn dod i stop yn rheolaidd a'r drafnidiaeth yn ciwio'n ôl wrth y gylchfan ar yr adegau prysuraf!!

All y rhwydwaith ffyrdd presennol ddim ymdopi, heb sôn am y tai newydd a gynigir a Heronsbridge, i gyd i Fferm yr Ynys!! Mae 300 o ddisgyblion ychwanegol yn golygu cannoedd o gerbydau ychwanegol ar y ffordd!!

Mae'r rhwydweithiau ffyrdd wedi eu gorlwytho'n barod. Mae'n beryglus ar yr A48, mae nifer o ddamweiniau a marwolaethau wedi digwydd eisoes.

Safle anaddas oherwydd ei leoliad, mae'r traffig yn ddychrynllyd yn barod ac yn beryglus!!

Dydy'r seilwaith ar yr A48 ddim yn addas i'r pwrpas. Bydd rhagor o draffig yn effeithio ar y mannau gwyrdd lleol a'r cymunedau. Bydd colli mannau gwyrdd yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol, ac ar les y trigolion gan gynnwys y plant.

Pam creu rhywbeth newydd? Pam ddim buddsoddi yn yr hyn sydd gennych yn barod i wella'r cyfleusterau o fewn yr adeiladau presennol.

Fel rhywun sy'n byw yn lleol rydw i'n teimlo bod y safle sy'n cael ei gynnig yn anaddas. Agos i'r A48 sy'n ffordd brysur yn barod.

Fe fydd gennym adeilad hardd arall yn wag ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gwnewch hwn yn addas i'r diben.

Rydw i'n cefnogi adeilad wedi ei adeiladu'n bwrpasol i Heronsbridge – ond nid yn y lleoliad yma. Os bydd y coleg yn symud, fyddai modd adeiladu ysgol newydd Heronsbridge yn y fan honno? Dydy'r A48 a Fferm yr Ynys ddim yn lleoliad addas. Mae angen inni amddiffyn lleoedd gwyrdd.

Mae'r ffyrdd o gwmpas Fferm yr Ynys yn beryglus yn barod oherwydd maint y drafnidiaeth. Mae cymaint o le gwyrdd wedi ei golli eisoes. Yn sicr, byddai'n well gwneud y fan yna'n warchodfa natur.

Mae'r bobl sy'n gyfarwydd â'r bont ac ysgolion lleol eraill yn gwybod mor bwysig ydy'r lleoliad canolog i Ben-y-bont ar Ogwr, ysgol gydag enw mor dda i aros lle mae hi, a pheidio â chael ei symud, mae llawer o deuluoedd fel fi yn cerdded gyda'u bachgen neu eu merch i'r ysgol. Ac mae bod mor ganolog i Ben-y-bont ar Ogwr yn ei gwneud yn haws ei chyrraedd.

Mae hwn yn newid mawr i'r plant sy'n mynychu'r ysgol, sydd angen trefn gyson ac sy'n methu ag addasu'n hawdd iawn i newid iddyn nhw a'u rhieni/teuluoedd. Fe fydd hyn yn broblem anferth i lawer o ddisgyblion. Mae'n hawdd i rieni ei chyrraedd ac yn nes at eu plant eraill sydd mewn ysgolion gerllaw. Mae'r ffordd i Fferm yr Ynys yn wirion o beryglus i bobl sydd ddim yn gyrru i fynd i'r ysgol, pe bai hi wedi ei lleoli yno, yn enwedig gyda phlentyn anabl. Mae hyn yn mynd i fod yn heriol i rieni sydd ddim yn defnyddio gwasanaeth cludiant i

nôl eu plentyn a ddim yn gyrru. Maen nhw'n dibynnu ar gerdded gyda'u plentyn i'r ysgol ac fe fydd hyn yn ei gwneud yn gwbl anniogel i bawb yn cynnwys y bobl sy'n gyrru ar y ffordd brysur honno. Mae Heronsbridge yn ysgol ddymunol iawn a'r staff yn wych, ond mae'r newid hwn yn effeithio ar y Bont hefyd, sy'n bwysig iawn i deuluoedd sydd â lle i'w plentyn neu faban fynd iddo. Fel hyn, rydych chi'n dwyn oddi arnyn nhw eu hunig obaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr o gael cychwyn gwell i'w bywyd mewn addysg!!

Mae angen iddi fod mewn lleoliad gwahanol, nid mewn lle o bwys hanesyddol fel Fferm yr Ynys.

Anhrefn traffig, gwaith adeiladu yn tarfu, mwy eto o adeiladu ar dir glas/llwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr – mae'n amser i roi'r gorau i hyn.

Bydd y cynigion yn cynyddu pellteroedd teithio i ddisgyblion/staff. Mae'r adroddiad yn sgubo ymaith y posibilrwydd o gyfleusterau lleol penodol lle nad oes angen mwy o deithio gan ddisgyblion. Mae'n rhaid bod cynyddu pellteroedd teithio yn broblem anodd/yn straen ar ddisgyblion ynghyd â chost barhaus nad yw wedi cael ei hystyried. Bydd cyfanswm y gost o £25 miliwn yn darparu cyfleusterau lleol gwell yn hawdd. Mae gwelliannau/arian sylweddol wedi cael ei wario ar Heronsbridge, fydd yn awr yn fuddsoddiadau gwastraffus. Byddwn yn awgrymu y bydd y cyfnodau o dagfeydd presennol ar yr A48 yn cyd-ddigwydd â disgyblion yn cyrraedd ac yn gadael y cyfleuster. Nodir bod asesiad wedi'i wneud ac y bydd newid mawr yng Nghylchfan Ewenni yn darparu ar gyfer hyn. Fodd bynnag, mae'n anodd rhagweld bod hyn yn bosibl o fewn cyfyngiadau'r R/B presennol. Ydy CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn berchen ar y tir ac os nad yw, ydy cost ei gaffael wedi cael ei hystyried yn yr amcangyfrifon, ac yn yr un modd a oes cost oes gyfan wedi'i gyfrif ar y prosiect?

Rydych chi'n dweud mai dyma'r lleoliad gorau ar gyfer y cyfleuster ar gyfer trigolion CBSP, ond mae edrych ar y safle arfaethedig yn dangos ei fod ym mhen deheuol eithaf y cyngor, go brin ei fod yn addas i ddisgyblion orfod teithio.

**Os ydych yn dymuno awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau gwahanol i'r cynigion a gyflwynwyd, rhowch fanylion:**

Parcio ceir – ystyriwch, os gwelwch yn dda, wneud hyn mor hawdd ag sydd modd i'r defnyddwyr.

Efallai y byddai'n werth ystyried symud y Bont i'r safle newydd, mae'r lleoliad yn darparu gofal cofleidiol fel clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol, cefnogaeth a gynigir yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd.

Gobeithiaf y bydd hen adeilad yr ysgol yn cael ei gadw.

Ehangwch ar y safle presennol. Adeiladwch ar safle tir llwyd.

Byddai'n well adeiladu ar safle tir llwyd.

Dewch o hyd i rywle arall. Rhowch y gorau i adeiladu ar bob cae sy'n wag. Mae angen atal y cynigion presennol. Defnyddiwch dir yr adeiladwyd arno o'r blaen ac nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Eglurder ynghylch y newidiadau arfaethedig i gylchfan Ewenni er mwyn caniatáu mynediad. Mae ciwio'n digwydd yn rheolaidd yn y bore yn ystod y tymor ar y ffordd rhwng Technology Drive a'r gylchfan.

D/B

Wel, mae gennych chi'r coleg gan eich bod yn bwriadu ei symud i ganol Pen-y-bont ar Ogwr. Byddwn yn annog yn gryf bod elfen coleg ôl-19 arbenigol yn cael ei hystyried o fewn y cynlluniau; a ellid ariannu hyn ar y cyd â gofal cymdeithasol? Nid yw gwasanaethau dydd lleol yn addas ac nid yw Weston House yn gallu cwrdd ag anghenion pobl ifanc â lefelau uwch o gymhlethdod, ac nid yw gwasanaethau dydd yn addas ar gyfer pobl ifanc 19 oed.

Oes yna ffordd i wneud rhai o'r adeiladau hynny ychydig yn fwy fel y gall yr adeilad a'i hanes gael eu cadw?

Oes yna safle gwahanol y gellir ei ddefnyddio, er enghraifft rhai o'r warysau tir llwyd ar y stad ddiwydiannol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a allai roi cartref i'r ysgol ac sydd â chysylltiadau ffyrdd da yn hytrach nag annog blerdwf trefol ar safle a allai gael ei adfer i natur? Hefyd mae'r A48 yn ffordd hynod o brysur fel y mae, heb ychwanegu at y traffig drwy roi ysgol 300 o ddisgyblion yno! Beth sy'n digwydd gyda'r hen safleoedd Ford neu Sony? Oes modd defnyddio'r rhain i ymestyn yr ysgol?

Syniad gwych, i gynyddu niferoedd a rhoi cyfleusterau gwell i'r ysgol hon sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Ond rydw i'n poeni am y traffig ar gyfer yr A48. Angen allanfeydd gwahanol o ardal newydd a thiroedd llydan, yna byddwn yn ei gymeradwyo'n llwyr. Fel arall bydd yn creu problem fydd yn gwneud pobl yn flin.

Rydym mewn dirfawr angen am adeilad ysgol newydd, nid yn unig ar gyfer lle ond hefyd i alluogi mwy o fyfyrwyr i fynychu. Bydd hyn yn rhoi'r cwricwlwm unigol gorau y mae arnynt ei angen.

Ystyriwch fynediad i'r safle ar gyfer bysiau, rhieni, staff ac ati a'r cynnydd yn y traffig wrth gylchfan Ewenni a'r ffyrdd cyfagos. Ar hyn o bryd, mae yna nifer o ffyrdd o gyrraedd Heronsbridge ond dim ond o Gylchfan Ewenni ac o gyfeiriad Broadlands y gellir cael mynediad i'r safle newydd.

Ailwampio ysgol Heronsbridge ac achub yr adeilad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac arbed bywyd gwyllt fferm yr Ynys.

Os ydy'r ysgol i adleoli mae angen iddi gael llawer mwy o gyfleusterau arbenigol ac ar raddfa fwy nag sydd ganddi eisoes. Mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i barcio ar gyfer staff a llwybrau traffig.

Mae digon o le ar safle presennol Heronsbridge i adeiladu a gwella'r ysgol a pharcio ar gyfer y bysiau. Hefyd, byddai'r coleg yn ddewis gwell pe bai'n rhaid iddo symud.

Gweler uchod

Safle gwahanol o bosibl wrth hen safle ‘does’ Pen-y-bont ar Ogwr neu dir cymdeithasol yr Heddlu.

Safle gwahanol

Safle gwahanol

Safle gwahanol

Ni ddylai’r lle gael ei ddatblygu. Gellid adeiladu cyfleuster newydd ar safle Coleg Pen-y-bont ar Ogwr.

Buddsoddwch mewn uwchraddio’r adeilad presennol.

Cefnogi’r fenter. Dewis gwael o safle gwahanol, o ystyried y seilwaith presennol.

Pam byddech chi’n adeiladu ar Fferm yr Ynys?

Fel uchod, ystyriwch leoliad arall ar gyfer Heronsbridge. Ni fyddai neb yn gwadu addysg i blant ond ystyriwch eu diogelwch a’r isadeiledd o gwmpas Pen-y-bont ar Ogwr sydd eisoes dan bwysau.

Gwelliannau i'r A48 i wella trafnidiaeth werdd a diogelwch.

Onid oes unrhyw safleoedd gwell mewn gwirionedd lle gellir datblygu ysgol newydd ar gyfer disgyblion Heronsbridge?

Rydw i'n meddwl bod angen cynyddu nifer y disgyblion (i 350+), gan y bydd niferoedd y disgyblion yn debygol o fod wedi cyrraedd 300 erbyn i'r ysgol newydd gael ei chwblhau.

Sicrhau bod Cwt 9 yn cael ei gadw a darparu cyllid.

Nid yw'r adeilad presennol bellach yn addas i'r pwrpas. Nid oes gan staff iechyd sy'n gweithio yn yr ysgol fynediad at yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu clinigau ar y safle i blant. Mae ganddynt ystafell sy'n cyflawni nifer o ddibenion ac yn yr adeilad newydd, byddai'r cynllun ar gyfer rhan les yn cwrdd ag anghenion y plant a'r staff hefyd yn well. Yr unig beth yr hoffwn ofyn amdano ydy i’r cynnig gynnwys lle ar gyfer clinigau pediatrig rheolaidd gyda theclyn codi lle gellir codi plant (os oes angen) ar wely archwilio. Mae angen i'r ystafell fod yn ddigon mawr i rieni, nyrs yr ysgol, yr athrawes a'r therapyddion allu bod yn y clinig ar yr un pryd. Bydd angen mynediad i rwydwaith BIP CTM hefyd. Sicrhau bod y gofod ar gyfer y nyrsys ar y safle yn cynnwys ystafell ar gyfer adolygu plant ac ystafell ar wahân ar gyfer gweithio cyfrinachol. Mae ar staff angen gwneud galwadau ffôn cyfrinachol ac ymuno â chyfarfodydd rhithwir sy'n heriol ar hyn o bryd. Dylai’r rhan les hefyd gynnwys ystafell ar gyfer ymgynghoriadau gan weithwyr iechyd proffesiynol sy’n ymweld – byddai angen ystafell gyda soffa o leiaf, mynediad TG, cyfleusterau golchi dwylo a lle i hyd at 5 o weithwyr proffesiynol.

Yn fy marn i nid yw’r cynnydd i 300 o ddisgyblion yn ddigon, os na fydd cyfle i ychwanegu rhagor o ddarpariaeth at y dyfodol i’r ysgol. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn datblygu drwy’r amser a thai newydd yn cael eu hadeiladu’n barhaus sy'n effeithio'n sylweddol ar ein hysbyty a'n hysgol arbennig, gyda disgyblion yn methu â chael mynediad at y ddarpariaeth addysgol gywir.

Ar hyn o bryd mae fy mab yn defnyddio'r ddarpariaeth ar ôl ysgol yn y Bont ac mae gan y 2 leoliad berthynas waith dda gan eu bod yn agos at ei gilydd. Os ydy Heronsbridge i symud fydd, wrth gwrs, o fudd i gynifer o blant, sut bydd y berthynas â’r Bont yn cael ei chynnal ar gyfer rhieni sy'n dibynnu ar ddarpariaeth y clwb ar ôl ysgol? Beth sydd wedi'i ystyried ar hyn o bryd mewn perthynas â'r mater hwn.

Rydw i’n cefnogi symud Ysgol Heronsbridge ond dim o’r cynigion yn y CDLl i adeiladu 847 o dai ar dir Fferm yr Ynys. Dim ond er mwyn darparu ar gyfer plant ag ADY yr ydw i’n cefnogi symud yr ysgol

Pam mae'r lleoliad yn cael ei newid? A beth ydy'r rhesymau am hyn?

Meddyliwch, os gwelwch yn dda, am yr holl deuluoedd sydd eisoes wedi cael digon o galedi ac yn ei chael hi'n anodd cael eu plentyn i'r ysgolion hyn ac i’r Bont. Mae lle ar y tir i ehangu'r ysgol heb orfod adleoli.

Mae'r cynllun cyffredinol yn swnio'n wych, ond nid yn y lleoliad yna. Beth am y llu o safleoedd diwydiannol segur sydd ar wasgar ar draws Phen-y-bont ar Ogwr. Rhowch bwrpas newydd i un o'r safleoedd hyn.

Hoffwn weld safle campws presennol Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei ddefnyddio/ail-bwrpasu/ailadeiladu ar gyfer ysgol newydd Heronsbridge. Fel hynny, gallant barhau i gael mynediad i'r tiroedd rhyfeddol o wych sydd ganddynt ar hyn o bryd, gyda'r berllan a'r porthdy a'r pwll nofio. Gall llif y traffig barhau gan ei fod yn mynd un ffordd i'r coleg ar hyn o bryd ac allan mewn ffordd arall. Mae'n safle enfawr a byddai'n drueni gweld tai yn cael eu codi arno.

Fel y nodwyd, byddai darpariaeth leol lai yn well na symud holl gyfleusterau'r cyngor i un lleoliad ym mhen draw deheuol yr ardal.

## Unrhyw Sylwadau Eraill:

Mae angen hyn yn fawr. Mae'r ysgol yn ddelfrydol ar gyfer cynnig dosbarthiadau bach ac mae nifer y disgyblion wedi parhau i godi a'r ystafelloedd dosbarth yn fychan iawn.

Mae'r cynllun yn edrych yn wych. Bydd o fudd mawr i blant fel fy mab sydd angen llawer o offer.

Adeiladwch gloc ysgol newydd i mewn i fur allanol yr adeilad er mwyn talu teyrnged i'r hen adeilad.

Mae'n wych gweld y ddarpariaeth o 6 lle cyn-ysgol cyfwerth ag amser llawn gan fod gwir angen y ddarpariaeth hon.

Dylid croesawu unrhyw gynlluniau i'r ysgol gefnogi mwy o ddisgyblion.

Pan fydd coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn symud i ganol y dref defnyddiwch goleg Pen-y-bont.

Dylai unrhyw gynnydd mewn darpariaeth arbenigol fynd yn ei flaen. Mae hwn yn gynnig gwych fydd o fudd enfawr i'r gymuned.

Peidiwch â gwthio'r disgyblion hyn allan o'r ardal, cadwch nhw o fewn y gymuned.

Os gwelwch yn dda, ystyriwch goleg ôl-19 ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth ar y safle newydd, yn sicr, byddai hyn yn arbed CBSP rhag talu am leoliadau y tu allan i'r sir. Neu ei roi yn ei le a rhoi'r tendr allan i gontract. Mae yna bartïon â diddordeb, fe welwch hyn pan fyddwch chi'n ei dendro. Os gwelwch yn dda, ystyriwch hyn, bydd rhieni yn eich helpu.

Peidiwch ag ymestyn Pen-y-bont ar Ogwr ymhellach ac edrychwch ar ardaloedd tir llwyd eraill!

Mae angen ei symud i wneud lle i fwy o blant ac mae hynny hefyd yn golygu y bydd yn cael ei adeiladu i bwrpas.

Ond rydw i'n poeni am y traffig ar gyfer yr A48. Bydd angen allanfeydd gwahanol o ran yr ysgol newydd a Broadlands, yna byddwn yn ei gymeradwyo'n llwyr. Fel arall, bydd yn creu problem fydd yn gwneud pobl yn flin.

Er mwyn cefnogi dysgwyr yn y ffordd orau, mae ar safle newydd Heronsbridge angen: Mwy o fannau awyr agored i gefnogi dysgu yn yr awyr agored (gan gynnwys mwy o leoedd gwyrdd naturiol/gwyllt i gefnogi Ysgol y Goedwig). Mae angen i'r lle hwn allu cynnwys y pedair adran. Porthdy Eco i gefnogi dysgu awyr agored a chyswllt ag Ysgol y Goedwig. Mwy o gyfleusterau ystafell ymolchi, gan gynnwys ystafelloedd ymolchi a all gynnwys un disgybl, mwy nag un

aelod o staff, cadair olwyn/ffrâm gerdded/ffrâm sefyll, newid gwely, teclyn codi (os nad yw'n barhaol) a gallu symud. Mwy o lifftiau o faint digonol. pwll hydrotherapi. Pwll Nofio. Man adlamu. Rhannau coginio i ddatblygu sgiliau byw a gyrfa/byd gwaith. Ystafelloedd newid i ddisgyblion newid cyn/ar ôl Addysg Gorfforol a chwaraeon. Safle diogel (tir) i sicrhau diogelwch dysgwyr. Mynediad teithio diogel i'r gymuned (gallu cerdded i leoliadau penodol, megis siop i ddatblygu sgiliau bywyd a gyrfaoedd/byd gwaith). Coridorau a drysau lletach. Lle i gadw cadeiriau olwyn/fframiau sefyll/fframiau cerdded pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Lle storio ar gyfer adnoddau (er enghraifft, clai, tywod, hambwrdd caled ac yn y blaen). Ystafelloedd dosbarth sy'n ddigon mawr i gynnwys disgyblion a staff ac a fydd yn caniatáu symud a mannau penodol o fewn yr ystafell ddosbarth (er enghraifft, cornel ddarllen, rhan fathemateg/rhifedd, man archwilio) i annog annibyniaeth. Ystafelloedd dosbarth sydd â golau naturiol ac sy'n barod ar gyfer dysgu. Lle dynodedig ar gyfer ystafelloedd synhwyraidd (fel sydd angen ar gyfer pob adran). Parcio i staff, rhieni a bysiau ysgol.

Mae angen i'r adeilad fod yn ymarferol, nid dim ond edrych yn neis. Mae angen iddo gael storfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth, mwy o gyfleusterau toiled gyda theclynnau codi. Teclynnau codi mewn ystafelloedd dosbarth. Dosbarth PMLD arbenigol fel gyda mellt a'r gallu i dywyllu. Mae angen i neuaddau a drysau fod yn fwy ar gyfer cadeiriau olwyn ac offer. Hefyd storfa ar gyfer offer ffisiotherapi a chyfarpar therapi galwedigaethol ar gyfer disgyblion unigol. Neuadd ddigon mawr i ffitio'r holl ddisgyblion a staff ond hefyd neuaddau bwyta ac addysg gorfforol ar wahân. Cyfleusterau i staff gael ystafell staff ddigonol. Pwll hydro mwy a phwll nofio o'r un maint o leiaf. Cyffrous!!

Os gwelwch yn dda, ystyriwch deimladau a phryderon trigolion lleol!!

Mae'r staff a'r plant yn edrych ymlaen yn fawr at ysgol wedi ei hadeiladu'n bwrpasol a all fod yn addas i anghenion pob unigolyn gan fod gan bob plentyn hawl i addysg well a gyda'r cynnig newydd hwn bydd ystafelloedd ddosbarth yn fwy, wedi eu haddasu, wedi eu hadeiladu'n bwrpasol, gyda mwy o le y tu allan. a dod yn amgylchedd dysgu gwell. Mae'r staff yn croesawu'r newid i gwrdd ag anghenion y plant.

Sicrhewch, os gwelwch yn dda, fod digon o le yn yr ystafelloedd dosbarth, cyfleusterau newid a choridorau er mwyn medru symud amryw o gadeiriau olwyn mawr yr un pryd. Digon o ystafelloedd ymolchi gyda theclynnau codi a chyfleusterau priodol. Mwy nag 1 lifft bach! Yr un cyfleusterau, neu rai gwell, fel pwll nofio, pwll dŵr, ystafell adlamu, caeau chwaraeon, campfa, campfa awyr agored, ystafell ddosbarth awyr agored, lleoedd Ysgol y Goedwig, ystafelloedd synhwyraidd, ystafelloedd therapi, llwybrau cerdded hygyrch i gadeiriau olwyn ar gyfer y filltir ddyddiol ac yn y blaen.

Ni ddylai'r Cyngor werthu'r ysgol bresennol na'i thiroedd ar gyfer ailddatblygu preifat. Ond efallai ailddefnyddio'r ysgol ar gyfer anghenion ychwanegol neu leoedd ychwanegol i ddisgyblion.

Mae'r safle presennol yn galluogi disgyblion/myfyrwyr i gael mynediad i dref Pen-y-bont ar Ogwr ar droed i ddatblygu ac atgyfnerthu sgiliau cymdeithasol. Bydd y safle newydd yn gwneud y cyfleoedd hyn yn llai hygyrch gan na fydd o fewn pellter cerdded. Hefyd bydd RHIENI/GOFALWYR, nad oes gan lawer ohonynt eu cludiant eu hunain, yn cael anhawster i gyrraedd y safle newydd ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau eraill gan ei bod yn bell i gerdded o Orsaf Bysiau Pen-y-bont a does yna ddim ond un bws bob awr yn rhedeg yn agos i'r safle newydd – (a dydy tacsis ddim yn rhad). Efallai y bydd hyn yn atal rhai rhieni rhag ymweld.

Hoffwn i'r ymgynghoriad gynnwys cynigion ar gyfer defnyddio adeilad a thiroedd yr ysgol bresennol yn y dyfodol a pha effaith, os o gwbl, y bydd hyn yn ei chael ar Harwood House.

Credaf y bydd y farn leol o blaid lleoli'r ysgol newydd, os na chaiff ei chymylu gan benderfyniad i adeiladu tai ar y safle hwnnw hefyd.

Bydd angen cynyddu adnoddau nyrsio ar y safle i gwrdd â'r cynnydd mewn disgyblion. Mae deall yr angen hwn yn heriol gan nad oes adnodd staffio diogel diffiniedig mewn ysgolion arbennig. Mae yna hefyd nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth gan gynnwys gweithredu'r Fframwaith ADY ac SSN ac mae angen i unrhyw sefydliad gweithlu sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni.

Mae yna bryderon y byddai symud yr ysgol hyd yn oed ymhellach i ffwrdd o Ben-y-bont ar Ogwr yn effeithio'n fawr ar faint o amser y byddai plant sy'n teithio o'r cymoedd yn ei dreulio ar gludiant cyhoeddus, yn enwedig y rheiny ag anghenion meddygol cymhleth.

Mae Fferm yr Ynys yn Safle Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) ac rydw i'n gwrthwynebu unrhyw adeilad arno neu'n agos iddo!

Nid wyf yn cefnogi adeiladu 847 o dai ar Fferm yr Ynys nac ailddatblygu campysau Coleg Pen-y-bont ar Ogwr a Heronsbridge ar gyfer tai na all seilwaith yr ardal eu cynnal. Mae Fferm yr Ynys yn SINC.

Mae lle ar y tir i ehangu'r ysgol heb orfod ail-leoli. Neu cynyddu nifer y staff er mwyn iddyn nhw gael mwy o ddisgyblion yn yr ysgol gan fod yr ysgol ei hun yn enfawr a dim un lle yn rhy lawn i gael mwy o ddisgyblion, sef tua 8 y dosbarth.

Hoffwn hefyd weld adeilad ysgol cyfredol/presennol Heronsbridge yn cael ei gadw gan ei fod o ddiddordeb hanesyddol ond hefyd ei ailwampio'n ganolfan i'r gymuned. Fy hun, rydw i'n edrych i mewn i'r posibilrwydd o sefydlu rhywbeth ar gyfer yr amser pan fydd ein pobl ifanc yn gadael y coleg a byddai defnyddio rhannau o'r ysgol bresennol yn help anhygoel / mawr i mi. Gellid ei ddefnyddio hefyd fel canolfan gelfyddydau i'r gymuned gan dynnu grwpiau amrywiol ochr yn ochr â'i gilydd, a chaffi cymunedol (a allai fod yn rhan o'm gweledigaeth / breuddwyd) a gallu defnyddio nodweddion presennol y tu mewn. Gellid ei ddefnyddio hefyd ar gyfer ystafelloedd cwnsela/ymgynghori/grwpiau creadigol a lleoliad i'w logi gan grwpiau 'stagecoach', brownis, sgowtiaid, bale, grwpiau gofalwyr, grwpiau elusennol lleol ac yn y blaen.

Mae'r adroddiad yr wyf wedi'i ddarllen yn ymddangos yn brin o fanylion pendant ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd gwneud sylwadau effeithiol ar y cynigion.

### Ymatebion/Esboniadau'r Awdurdod Lleol ar y Materion a Godwyd:

### Y Rhesymeg dros Ddarparu Ysgol Newydd

Câi'r ysgol newydd arfaethedig ei dylunio'n seiliedig ar ganllawiau'r ardal ar gyfer ysgolion arbennig (a thrwy hynny'n darparu safonau llety gwell), yn gwbl hygyrch a châi'r holl gostau cynnal a chadw sydd wedi cronni eu dileu. Mae manteision ychwanegol sylweddol o ran ansawdd yn gysylltiedig â darparu Ysgol Heronsbridge newydd, fwy:

- Mwy o leoedd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sydd ar gael.
- Gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n cael eu hanfon y tu allan i'r sir (mae'r arferiad hwn yn ddrud ac yn aml yn peri amseroedd teithio sylweddol i ddisgyblion).
- Adeiladau addas a digonol sy'n cwrdd ag anghenion y dysgwyr mwyaf bregus.
- Adeilad sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

- Cynnydd yn nifer y lleoedd preswyl.
- Mae'r safle arfaethedig tua milltir o safle'r ysgol bresennol ac felly ni ragwelir y byddai unrhyw effaith arwyddocaol ar gludiant disgyblion.

Mae gan yr ysgol bresennol amrywiaeth o gyfleusterau arbenigol. Fodd bynnag, mae yna broblemau sylweddol o ran nifer a maint y mannau addysgu a’r mannau nad ydynt ar gyfer addysgu. Mae lle storio a chylchrediad hefyd yn broblem ac o ystyried anghenion y dysgwyr (y mae llawer ohonynt angen cymhorthion cerdded neu gadeiriau olwyn), gall hyn achosi problemau wrth reoli symud diogel o amgylch yr ysgol. Mae cyfleusterau hylendid personol a thoiled hefyd yn heriol. Byddai'r holl faterion hyn yn derbyn sylw wrth ddarparu ysgol newydd a fyddai'n cael ei dylunio'n benodol i gwrdd ag anghenion y dysgwyr.

**Maint yr Ysgol**

Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'r Pennaeth i weithio allan boblogaeth ragamcanol yr ysgol drwy edrych ar ddata hanesyddol a rhagamcanu'r boblogaeth ymlaen. Ystyrir bod y capasiti rhagamcanol o 300 yn gynaliadwy. Ystyrir mai ysgol â 300 o leoedd yw’r terfyn lle na chaiff ansawdd yr addysgu, yr ymyrraeth, y rheolaeth a’r llywodraethu ei golli. Mae meini prawf derbyn newydd, a gyflwynwyd yn 2013, wedi golygu bod niferoedd y disgyblion wedi aros yn gymharol sefydlog ac felly mae hyder yn rhagamcanion y disgyblion ar gyfer y pump i ddeng mlynedd nesaf.

**Safleoedd Gwahanol a Awgrymwyd**

**Safle Ysgol Bresennol Heronsbridge**

Byddai datblygu’r ysgol arfaethedig ar safle presennol Ysgol Heronsbridge yn niweidiol i addysg a lles y disgyblion, o ystyried eu hanghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Byddai cynllun graddol gyda gwaith dymchwel ar y safle yn achosi aflonyddwch sylweddol. Byddai rhaglen adeiladu hirfaith, gan y byddai angen gwneud y gwaith fesul cam gyda chyfres o weithrediadau symud, a fyddai’n achosi aflonyddwch sylweddol.

**Safle Coleg Pen-y-bont ar Ogwr**

Yn y blynyddoedd diweddar iawn, mae Coleg Pen-y-bont wedi penderfynu symud o gampws Heol y Bont-faen. Nid yw amseriad yr adleoli yn cyd-fynd â'r cynnig hwn a'r gymeradwyaeth cyllid mewn egwyddor a sicrhawyd ar gyfer yr ysgol newydd.

**Fferm yr Ynys**

Oherwydd ei leoliad a'i faint, ystyriwyd mai safle Fferm yr Ynys ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd yr un mwyaf addas ar gyfer yr ysgol arfaethedig. Ni fydd datblygiad yr ysgol yn cael unrhyw effaith ar Gwt 9, cyn-Wersyll y Carcharorion Rhyfel. Ychydig iawn o effaith fydd ar ddisgyblion a’u haddysg yn ystod y cyfnod adeiladu gan y bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu ar safle ar wahân, sy’n golygu y gall yr ysgol bresennol barhau i weithredu heb ymyrraeth.

**Defnydd Safle Ysgol Heronsbridge yn y Dyfodol**

Byddai defnydd safle presennol Ysgol Heronsbridge yn y dyfodol yn amodol ar werthusiad o’r dewisiadau a phenderfyniad y Cabinet yn y dyfodol, yn dibynnu ar ganlyniad llwyddiannus y broses statudol o ran y newidiadau rheoledig arfaethedig.

Cafodd prif adeilad yr ysgol ei restru'n ddiweddar gan Cadw.

**Y Briffordd**

Byddai'r ysgol arfaethedig wedi ei lleoli ar safle Fferm yr Ynys ym Mhen-y-bont ar Ogwr a byddai mynediad iddi drwy Barc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu asesiad traffig (AT) i ystyried effaith y cynnig ar y rhwydwaith priffyrdd lleol.

Cyfeiriwyd at gylchfan gyda signalau A48/B4265 Heol Ewenni, gan mai’r gyffordd hon yw’r un fwyaf beichus a’r un a fyddai’n cael ei heffeithio fwyaf o ganlyniad i adleoli’r ysgol o’r gogledd i’r de o’r gylchfan.

I liniaru effaith adleoli'r ysgol arfaethedig, mae'r AT wedi argymell gwella’r gyffordd wrth gylchfan Ewenni. Yn yr achos hwn mae'r AT wedi dangos cyflwyno lôn ychwanegol wrth nesáu at y gylchfan o gyfeiriad y gogledd (hynny yw, ar Heol Ewenni) ar gyfer symudiadau troi i'r chwith yn unig. Gellir ymgorffori'r dyluniad lefel uchel hwn o fewn ffiniau priffyrdd mabwysiedig.

Mae'r AT yn dod i'r casgliad, gyda'r mesur lliniaru hwn yn ei le, y gellir penderfynu bod y gwelliant o ran y cyffordd arfaethedig yn lliniaru effaith y datblygiad arfaethedig ar weithrediad cylchfan Ewenni i safon dderbyniol.

**Ecoleg/Tir Gwyrdd**

Mae safle'r ysgol arfaethedig yn amaethyddol ac nid yw wedi cael ei ddynodi fel man gwyrdd agored. Wrth gyflwyno ysgol newydd yn y lleoliad hwn, gwneir gwelliannau i fioamrywiaeth a chynefin ecolegol.

Yn gyffredinol, bydd ardal Fferm yr Ynys angen rhywfaint o liniaru ecolegol. Fodd bynnag, bydd llai o effaith ar safle'r ysgol arfaethedig nag ar weddill y safle. Mae'r ardal yn dir agored ond gyda ffiniau yn cynnwys gwrychoedd aeddfed. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos mai bychan iawn fyddai unrhyw effaith bosibl ar y gwrychoedd ond, unwaith y bydd cynigion manwl wedi cael eu paratoi, caiff unrhyw effaith ei hystyried yn fanylach.

Byddai'r prosiect yn gofyn am arbenigedd ecolegydd cymwys a fyddai'n cynnal asesiad ysgrifenedig o'r safle o ran ei werth ecolegol er mwyn bodloni Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Prydeinig. Byddai'r ecolegydd hefyd yn cael y dasg o ddarparu cyngor ysgrifenedig a lluniedig i

- ymdrin â lliniaru effaith ecolegol;
- gwella ecoleg y safle; ac
- ystyried yr effaith hirdymor ar fioamrywiaeth.

Byddai arolwg cynefinoedd estynedig Cam 1 ac arolygon rhywogaethau penodol yn cael eu darparu gan yr ecolegydd.

Ystyrir bod safle'r ysgol arfaethedig yn ddigon pell o'r Safle o Bwys i Gadwraeth Natur (SINC).

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

Bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda staff yr ysgol a'r awdurdod iechyd lleol i sicrhau bod y rhannau/cyfleusterau gofynnol yn cael eu darparu o fewn canllawiau arwynebedd y llawr. Câi cyfres o sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu eu cynnal, pe bai’r cynnig yn mynd yn ei flaen.

**Darpariaeth Gyn-ysgol**

Bob blwyddyn mae lleoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir, sydd wedi eu cofrestru gydag Estyn, yn cynorthwyo'r awdurdod lleol drwy gynnig pecynnau ariannu arbenigol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cymhleth ar gyfer eu blwyddyn Feithrin. Mae’r Bont yn un o'r lleoliadau hyn.

Eleni mae’r Bont yn cefnogi saith pecyn arbenigol ac mae lleoliadau eraill ar draws yr awdurdod lleol yn cefnogi 15. Yn y flwyddyn i ddod, bydd y Bont yn cefnogi chwe Phecyn Blynyddoedd Cynnar arbenigol a bydd lleoliadau eraill yn cefnogi tua 19. Nid oes yr un o'r lleoliadau eraill hyn yn wedi ei gyd-leoli ar safle Ysgol Heronsbridge. At hynny, bydd staff Ysgol Heronsbridge yn ymweld yn rheolaidd â lleoliadau ac ysgolion ar draws CBS Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi'r broses derbyn a lleoli yn yr ysgol. Bydd yr awdurdod lleol yn dal i fod angen y pecynnau Meithrin mewn lleoliadau ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys y Bont.

## ATODIAD 8

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i wneud newidiadau rheoledig i gynyddu nifer y disgyblion y mae Ysgol Heronsbridge yn darparu ar eu cyfer i 300 ac i adleoli'r ysgol i Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr, i ddod i rym o ddechrau tymor yr hydref 2025.**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi ei farn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi cynhyrchu'r ymateb a ganlyn i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd.

### Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig gwneud newidiadau rheoledig i gynyddu nifer y disgyblion y mae Ysgol Heronsbridge yn darparu ar eu cyfer i 300, ac adleoli'r ysgol i Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr, i ddod i rym o ddechrau tymor yr hydref 2025.

### Crynodeb / Casgliad

Mae'r cynigydd wedi diffinio'n glir fanteision cynyddu capasiti yn Heronsbridge yn ogystal ag effaith sylweddol yr adeilad ysgol newydd arfaethedig ar safonau disgyblion, eu llesiant a'u hagweddau at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth. Mae'r cynnig yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gael profiadau addysgol arbenigol mewn lleoliad priodol yn eu bwrdeistref sirol.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safon bresennol yr addysg o leiaf.

### Disgrifiad a Manteision

Mae'r cynigydd wedi rhoi rhesymeg glir ac yn diffinio'n eglur yr hyn y mae'r cynnig yn ei olygu'n ymarferol a manteision disgwyliedig y cynnig.

Byddai'r cynnydd yn y niferoedd ar y gofrestr yn cwrdd â'r angen cynyddol am leoedd i ddisgyblion ag ADY. Byddai hyn hefyd yn lleihau nifer y dysgwyr sy'n cael eu hanfon y tu allan i'r sir, sy'n ddrud ac yn aml yn achosi amserau teithio sylweddol i ddisgyblion. Mae'r cynigydd hefyd yn datgan nad yw'r ysgol bresennol yn addas i'r diben. Mae yna broblemau sylweddol gyda maint lleoedd addysgu a'r mannau nad ydynt ar gyfer addysgu. Mae'r lle storio a chylchrediad yn wael ac o ystyried anghenion y dysgwyr mae hyn yn achosi problemau wrth reoli symud yn ddiogel o amgylch yr ysgol. Mae cyfyngiadau ac addasrwydd ystafelloedd dosbarth, dysgu yn yr awyr agored, chwarae yn yr awyr agored, hylendid personol, a'r toiled yn achosi

problemau y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn diogelu lles disgyblion a staff. Mae adeilad newydd yr ysgol yn ymddangos yn gyfleuster addas ar gyfer addysgu yn yr 21ain ganrif a byddai'n darparu lle addas a allai gwrdd ag anghenion ei ddisgyblion yn briodol.

Mae'r cynigydd hefyd wedi ystyried y manteision a'r anfanteision disgwyliedig o fewn y cynnig o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Ni fyddai cynnal y status quo yn gwireddu cyfleoedd darpariaeth arbenigol o fewn y sir nac ychwaith yn lleddfu'r pwysau presennol i fynd i'r afael â'r galw am leoedd i ddisgyblion ag ADY cymhleth.

Mae'r cynigydd wedi darparu tystiolaeth briodol i ddangos ei fod wedi ystyried dewisiadau gwahanol i'r cynnig presennol ac wedi rhoi rhesymau da pam y cafodd y rhain eu diystyru. Yn ogystal, mae'r cynigydd yn cynnig awgrymiadau priodol i reoli unrhyw risgiau cysylltiedig â'r cynigion.

Mae'r cynigydd wedi ystyried pellteroedd teithio rhesymol i'r disgyblion sy'n debygol o fynychu. Mae safle arfaethedig Fferm yr Ynys oddeutu milltir oddi wrth safle'r ysgol bresennol ac felly rhagwelir mai ychydig iawn o effaith, os o gwbl, y byddai'n ei chael ar gludiant i'r disgyblion presennol. Darperir cludiant priodol am ddim i bob disgybl sy'n mynychu darpariaeth arbenigol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae'n ymddangos bod y cynigydd wedi ystyried i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Mae'n nodi y gellid defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer defnydd cymunedol / dosbarthiadau oedolion drwy'r Gymraeg. Yn ogystal, mae'r safle wedi ei leoli'n ganolog i annog defnydd gan y gymuned gyfagos ac ehangach sy'n ceisio cyfle i gymryd rhan mewn dosbarthiadau Cymraeg y gellid eu cynnig. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn amlinellu sut y byddai profiadau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion yn yr ysgol yn gwbl gyfartal â'r ddarpariaeth gyfrwng Saesneg.

Mae'r cynigydd wedi nodi costau ariannol y cynnig. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir mai cyfanswm cost y prosiect ar gyfer darparu'r ysgol newydd yw £25 miliwn. Bydd y cynllun yn cael ei ariannu gan adnoddau cyfalaf Llywodraeth Cymru a CBSP. Cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru yw 75% a'r cyngor sy'n gyfrifol am y 25% sy'n weddill.

Cyflwr cyffredinol yr ysgol bresennol yw gradd C a'r costau cynnal a chadw sydd wedi cronni (a aseswyd ym mis Hydref 2020) yw £1,248,200.00.

## Agweddau Addysgol y Cynnig

Mae'r cynigydd wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar ansawdd a safonau addysg. Mae'r cynigydd yn nodi'n briodol bod Ysgol Heronsbridge wedi'i harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Mehefin 2014. Barnwyd bod yr ysgol yn rhagorol o ran ei pherfformiad presennol ac o ran rhagolygon yr ysgol i wella. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at leoliad effeithiol, gydag arweinyddiaeth gref, sy'n darparu profiadau dysgu a darpariaeth dda i'r holl ddisgyblion. Mae'r cynigydd yn awgrymu y bydd gweithredu'r cynnig hwn yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i adeiladu ar ei harfer cryf presennol. Mae'r cynigydd hefyd wedi ystyried yn briodol farn yr awdurdod lleol ar ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol.

Mae'r cynigydd hefyd wedi ystyried gwybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer yr ysgolion y mae’r cynnig yn debygol o effeithio arnynt. Mae'r ysgolion hyn wedi cael eu hystyried gan y byddai gan yr adeilad newydd yn Heronsbridge y gallu i gynnig dosbarth arsylwi ac asesu meithrin amlddisgyblaethol. O ganlyniad, byddai'r cynnig yn lleihau'r pwysau ar y dosbarthiadau hyn o fewn yr awdurdod lleol. Byddai hefyd yn galluogi'r ymateb graddedig sy'n ofynnol gan y Ddeddf ADY a byddai'n gymorth i benderfynu ar y lleoliad ysgol mwyaf priodol.

Mae’r cynnig yn amlinellu’r cyfle i gyflwyno cwricwlwm synhwyraidd-gyfoethog gyda darpariaeth o fannau a ddyluniwyd yn arbennig, fydd yn ymestyn y gwersi a ddarperir i ddisgyblion ag anabledd dysgu dwys a lluosog (ADDLl) / anawsterau dysgu penodol (SLD) a Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistig (ASA) ar draws yr ysgol. Byddai'r ysgol hefyd yn elwa o ddarpariaeth glir o gyfleusterau sy'n effeithio ar eu cwricwlwm 14-19 ac sy'n darparu mannau addysgu galwedigaethol yn ogystal ag addysgol.

Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynigion ar grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag ADY. Ymddengys fod adeilad newydd yr ysgol a'r ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hyn.

Dylai ailfodelu arfaethedig yr ysgol sicrhau bod cyn lleied â phosibl o darfu ar y disgyblion a’r ddarpariaeth.

**Ymatebion/Esboniadau’r Awdurdod Lleol ar y Materion Cryno a Godwyd:**

Mae’r Tîm Cefnogi Ysgolion yn fodlon ar yr adroddiad a ddarparwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi, Estyn.

## Atodiad 9 – Asesiad Effaith ar y Gymuned

**Enw'r Cynnig:**

Ysgol Heronsbridge
- nifer y disgyblion yn cynyddu i 300; ac
- adleoli'r ysgol i Fferm yr Ynys, i ddod i rym yn nhymor yr hydref 2025

**Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?**

Y Cabinet

**Pwy sydd wedi cael rhan mewn datblygu'r cynnig?**

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwr y Rhaglen Ysgolion - Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwyr Grŵp – Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Bwrdd Rhaglen Strategol Moderneiddio Ysgolion
Swyddogion technegol yr awdurdod lleol

**Nodau ac Amcanion:**

Cynnig i wneud newidiadau rheoledig i gynyddu nifer y disgyblion y mae Ysgol Heronsbridge yn darparu ar eu cyfer i 300 ac i adleoli'r ysgol i Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr, i ddod i rym o ddechrau tymor yr hydref 2025

**Camau Allweddol**:

Gweithdrefn statudol i wneud newidiadau rheoledig i Ysgol Heronsbridge:
- Cynyddu nifer y lleoedd y mae Ysgol Heronsbridge yn darparu ar eu cyfer i 300; ac
- Adleoli'r ysgol i Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr, i ddod i rym o ddechrau tymor yr hydref 2025.

**Y Canlyniadau Disgwyliedig:**

Bydd Ysgol newydd Heronsbridge, wedi cael ei hadeiladu ar gyfer 300 o ddisgyblion, yn agor ar safle Fferm yr Ynys ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar ddechrau tymor yr hydref 2025.

**Ar bwy y bydd hyn yn effeithio?**

Staff, llywodraethwyr, dysgwyr, rhieni a'r gymuned ehangach.

**Ar tua faint o bobl y bydd yn effeithio?**

mwy na 1000 o bobl.

**Dyddiad y disgwylir penderfyniad**:

Medi 2022.

**Cwmpas/Canolbwynt yr Asesiad:**

Rhoddir ystyriaeth i:

- y modd y mae'r ysgol yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd gan y gymuned
- hygyrchedd i ddysgwyr, y staff, y rhieni a'r gymuned
- effaith symud yr ysgol
- yr effaith ar adeilad yr ysgol
- yr effaith ar y gymuned estynedig

**Data a/neu ymchwil berthnasol:**

- Defnydd adeiladau'r ysgol y tu allan i oriau
- 'Strategaeth, Egwyddorion, Fframwaith Polisi a Chynllunio' sy'n sail i'r dull o fynd 'r afael â blaenoriaethau strategol yn y Fwrdeistref Sirol a'r ddogfen ddilynol 'Dogfen Egwyddorion' 2015
- Amcangyfrifon dysgwyr, a chyflwr yr adeilad

**Canfyddiadau**

**Defnydd gan y gymuned:**

Defnyddir yr ysgol ar gyfer y gweithgareddau cymunedol canlynol yn ystod yr wythnos:

**Pwll nofio**

| | | |
|---|---|---|
| Buller and Packman Swim | – Dydd Llun | 4.00p.m.– 8.30p.m. |
| Residency Swim | - Dydd Mawrth | |
| Stars of the Pool | - Dydd Iau | 4.30p.m.– 7.00p.m. |
| Water Babies | - Dydd Mercher | 4.30p.m.– 6.30p.m. |
| Water Babies | - Dydd Sul | 9.00am – 12 hanner dydd |
| Swimkidz | - Dydd Gwener | 4.30p.m.– 6.30p.m. |
| Swimkidz | - Dydd Sadwrn | 8.30am – 4.00p.m. |

**Gym**

| | | |
|---|---|---|
| Generations Se7ens | - Dydd Llun | 5.00p.m.– 6.00p.m. |
| Clwb Pêl-droed Pen-y-bont | - Dydd Llun | 6.30p.m.– 7.30p.m. |
| Bale | - Dydd Mawrth | 5.00p.m.– 7.00p.m. a 7.00p.m.– 8.00p.m. |
| Stagecoach | - Dydd Iau | 5.00p.m.– 9.00p.m. |
| Stagecoach | - Dydd Gwener | 5.00p.m.– 8.00p.m. |
| Stagecoach | - Dydd Sadwrn | 9.30a.m. – 6.30p.m. |
| Ospreys ICC | - Dydd Sul | 10.00a.m. – 11.40a.m. |

**Neuadd Heron**

| | | |
|---|---|---|
| Côr Roc | - Dydd Mercher | 6.45p.m.– 9.00p.m. |
| Stagecoach | - Dydd Iau | 5.00p.m.– 8.00p.m. |
| Stagecoach | - Dydd Gwener | 5.00p.m.– 8.00p.m. |
| Stagecoach | - Dydd Sadwrn | 9.30a.m. – 5.30p.m. |

**Cae 3G**

| | | |
|---|---|---|
| Herons | - Dydd Llun | 4.30p.m.– 5.30p.m. |
| Herons | - Dydd Llun | 7.30p.m.– 8.30p.m. |
| Clwb Pêl-droed Pen-y-bont | - Dydd Llun | 6.30p.m.– 7.30p.m. |
| Spanish Soccer | - Dydd Mawrth | 4.30p.m.– 7.15p.m. |
| Pêl-droed Ravencourt | - Dydd Mercher | 5.30p.m.– 6.30p.m. |
| Hurio preifat | - Dydd Sul | 5.30p.m.– 6.30p.m. |

Chwarae CBS Pen-y-bont – nosweithiau
Mae’r ysgol yn rhedeg clybiau allgyrsiol ar ôl yr ysgol:
Clwb Pêl-droed Cymunedol Cynhwysol yr Herons (disgyblion presennol a chyn-ddisgyblion Ysgol Heronsbridge) – Nos Lun a Nos Fercher.
Twrnameint pêl-droed i’r anabl ar benwythnosau yn cael eu cynnal gan yr Herons
Clwb coginio – un noson yr wythnos
Clwb Ioga - un noson yr wythnos

**Prif Bolisi:**

- Mae’r cynnig hwn yn cydredeg â ‘Dogfen Egwyddorion’ Mawrth 2015 .

**Amcangyfrifon o boblogaeth yr ysgol a chyflwr yr adeilad:**

- Amcangyfrifon o boblogaeth yr ysgol
- Amlinellir cyflwr yr adeilad o ran yr ysgol bresennol isod:

| Ysgol | Ansawdd yr adeilad |
|---|---|
| Ysgol Heronsbridge | Graddfa cyflwr cyffredinol C (gwael; yn amlygu gwendidau mawr a/neu ddim yn gweithio fel y bwriadwyd) |

**Yr effaith ar y gymuned estynedig**

- Nid yw’n debygol y bydd effaith ar ddefnydd cymunedol er y bydd effaith gadarnhaol yn debygol o ran cyfleusterau cymunedol modern, hygyrch, pwrpasol fydd wedi'u lleoli yn yr ysgol newydd arfaethedig.

**Yr effaith ar ysgolion eraill**

- Ni ddisgwylir i'r ysgol newydd gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgol arall. Ysgol Heronsbridge yw'r unig ddarpariaeth o'r math hwn ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth o fewn CBSP, bydd yn denu disgyblion o ardal lawer ehangach ac ni fydd yn cystadlu am ddisgyblion mewn ysgolion cyfagos.

**Sut bydd y penderfyniad yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol?**

Nid yw’n cael ei ystyried yn debygol y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig. Byddai effaith gadarnhaol o ystyried y byddai’r ysgol newydd yn cael ei dylunio i gydymffurfio’n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 fyddai’n cefnogi’r holl ddysgwyr, staff, ymwelwyr ac yn y blaen.

**Ymgynghoriad**

**A gynhaliwyd ymgynghoriad penodol ynghylch y penderfyniad hwn (os naddo, dywedwch pam ddim a/neu pryd y bydd hyn yn digwydd):**

Roedd y cyfnod ymgynghori o 4 Ebrill hyd 18 Mai 2022

**Beth oedd canlyniadau'r ymgynghoriad?**

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn ymwneud yn bennaf â phryderon ynghylch:

- y safle arfaethedig;
- yr effaith ar y briffordd;
- materion ecolegol;
- maint yr ysgol;
- defnydd safle presennol yr ysgol yn y dyfodol; a
- Y Bont.

**Ar draws y nodweddion gwarchodedig, pa wahaniaeth barn a ddatgelodd dadansoddiad o'r ymgynghoriad?**

Nid yw'n cael ei ystyried yn debygol y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig.

**Pa gasgliadau y daethpwyd iddynt o'r dadansoddiad ynghylch sut y bydd y penderfyniad yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol?**

Byddai effaith gadarnhaol o ystyried y byddai'r ysgol newydd wedi cael ei dylunio i gydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 a fyddai'n cefnogi'r holl ddysgwyr, staff ac ymwelwyr.

**Asesiad o'r Effaith ar y Staff**

**Rhowch fanylion yr effaith ar Y staff, gan gynnwys y proffil staffio os/fel y bo'n briodol:**

Byddai canlyniad y cynnig, pe bai'n mynd yn ei flaen, yn golygu bod y strwythur staffio yn debygol o gynyddu dros gyfnod o amser. Byddai'r strwythur staffio yn cyd-fynd â'r cynnydd ym mhoblogaeth yr ysgol. Y corff llywodraethu fyddai'n gyfrifol am y strwythur staffio a fyddai'n cael ei bennu'n bennaf gan anghenion addysgol yr ysgol a'r gyllideb fyddai ar gael.

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned Ehangach**

**Rhowch fanylion unrhyw effeithiau ar y gymuned gyfan:**

Mae safle'r ysgol newydd arfaethedig oddeutu milltir i ffwrdd oddi wrth safle'r ysgol bresennol. Ni ragwelir felly y bydd effaith negyddol ar y gymuned. Fodd bynnag, mae pryderon ynglŷn â'r effaith ar y briffordd. Mae mesurau lliniaru wedi cael eu nodi a byddant yn cael eu cyflawni, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.

**Dadansoddiad o'r Effaith yn ôl Nodweddion Gwarchodedig**

**Rhowch grynodeb o ganlyniadau'r dadansoddiad:**

Nid yw'n cael ei ystyried yn debygol y bydd y cynnig yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig.

**Aseswch berthnasedd ac effaith y penderfyniad ar bobl â nodweddion gwahanol**

**Perthnasedd** = Uchel / Isel / Dim / **Effaith** = Uchel / Isel / Niwtral

| **dwedd** | **Perthnasedd** | **Effaith** |
|---|---|---|
| Oed | Uchel | uchel - cadarnhaol |
| Anabledd | Uchel | uchel - cadarnhaol |
| Ailbennu rhywedd | Uchel | uchel - cadarnhaol |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim | Niwtral |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim | Niwtral |
| Hil | Dim | Niwtral |
| Crefydd neu gred | Dim | Niwtral |
| Rhyw | Dim | Niwtral |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim | Niwtral |
| Eraill sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol | Dim | Niwtral |

**Lle mae unrhyw effaith negyddol wedi cael ei nodi, amlinellwch y mesurau a gymerwyd i'w lliniaru:**

Nid yw'n cael ei ystyried yn debygol y bydd y cynnig yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig. Bydd effaith gadarnhaol ar rai grwpiau (hynny yw, oedran, anabledd, a rhyw).

**Rhowch wybod am y goblygiadau cyffredinol o ran cydraddoldeb y dylid eu hystyried yn y penderfyniad terfynol, gan ystyried perthnasedd ac effaith:**

Daeth yr asesiad i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig.

**Llofnodwyd:**

Rheolwr Rhaglen Ysgolion, Y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**Dyddiad:**

25 Mai 2022

## Atodiad 10 – Asesiad Effaith ar y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Y Cynnig:** | Ysgol Heronsbridge – newid rheoledig arfaethedig i gynyddu nifer y lleoedd i 300 o leoedd a'i lleoli yn Fferm yr Ynys |
| **Adran:** | Tîm Moderneiddio Ysgolion – Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| **Swyddog sy'n Cwblhau:** | Rheolwr Rhaglen Ysgolion |
| **Dyddiad:** | 21 Mawrth 2022 |
| **Disgrifiad cryno:** | Y cynnig yw cynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion sydd ar gael yn Ysgol Heronsbridge i 300 ac adleoli'r ysgol i safle Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr mewn adeilad ysgol newydd addas i'r diben. |
| **Ar bwy y bydd y cynnig hwn yn cael effaith?** | Y corff llywodraethu, staff, dysgwyr, a rhieni/gofalwyr – Ysgol Heronsbridge<br><br>Defnyddwyr cymunedol yr ysgol.<br><br>Ysgolion penodol o bosibl gyda dosbarthiadau arsylwi ac asesu.<br><br>Grwpiau rhanddeiliaid (er enghraifft, defnyddwyr cymunedol yr ysgol bresennol) |
| **Beth yw nodau'r polisi a sut mae'r rhain yn cysylltu â'r Gymraeg?** | Ysgol arbennig gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Heronsbridge sy'n ganolfan ranbarthol sy'n darparu ar gyfer y dysgwyr mwyaf agored i niwed ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD), anawsterau dysgu difrifol (SLD) ac anawsterau dysgu dwys a lluosog (PMLD) mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ôl-16. Mae gan yr ysgol ddau dŷ preswyl tair ystafell wely ar gyfer y dysgwyr hynny sydd angen darpariaeth breswyl dros 39 wythnos. Fodd bynnag, disgyblion dydd yw'r mwyafrif ohonynt.<br><br>Wedi'i leoli yn Heol Ewenni, Pen-y-bont ar Ogwr, mae adeilad gwreiddiol yr ysgol yn dyddio'n ôl i 1929 ac mae wedi'i adeiladu o gerrig yn y dull traddodiadol. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd addysgu wedi'u gwasgaru dros ddau lawr, gyda thoeau crib ac mae'r prif floc wedi cael ei ymestyn nifer o weithiau.<br><br>Gradd C yw cyflwr cyffredinol yr ysgol a'r ôl-groniad o gostau cynnal a chadw (a aseswyd ym mis Hydref 2020) yw £1,248,200.00.<br><br>Ar hyn o bryd, mae 236 o ddisgyblion ar y gofrestr. |

| | |
|---|---|
| | Y cynnig yw gwneud newidiadau rheoledig i gynyddu nifer y disgyblion y mae Ysgol Heronsbridge yn darparu ar eu cyfer i 300 ac adleoli'r ysgol i Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr, o ddechrau tymor yr hydref 2025.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r holl ddysgwyr yn Heronsbridge ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol a chymhleth yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg, iaith arwyddion â chymorth a dulliau gweledol a thechnolegol ychwanegol o gymorth cyfathrebu. Addysgir y Gymraeg fel rhan o Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (hynny yw, Maes Profiad Dysgu). Mae'r plant i gyd yn dysgu am eu hunaniaeth, a'u diwylliant i'w paratoi fel dinasyddion Cymru.<br><br>Bydd adeilad yr ysgol yn amgylchedd dysgu modern, hyblyg y gellir ei addasu. Bydd ganddo leoedd mawr (hynny yw, ar gyfer gwasanaethau, Addysg Gorfforol, a chiniawa). Bydd rhannau mewnol ac allanol wedi cael eu dylunio'n addas i'w defnyddio gan yr ysgol a'r gymuned. Darperir mannau awyr agored i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm. Caiff mannau parcio gwell ar gyfer ymwelwyr, staff a chludiant ysgol eu darparu. Wedi'i hadeiladu i ganllawiau Bwletin Adeiladu 104, bydd yr ysgol yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â'r holl Reoliadau Adeiladu perthnasol.<br><br>Bydd yr ysgol yn cael ei hariannu gan Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru ac adnoddau cyfalaf Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai'r ysgol arfaethedig yn agor i ddisgyblion ym mis Medi 2025 ar dir Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr. |
| **Pwy fydd yn elwa / allai'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg eu hiaith?** | Y cymunedau yng nghyffiniau'r ysgol.<br><br>Dylai fod effaith gadarnhaol ar grwpiau Cymraeg gan y bydd yr adeilad newydd yn hygyrch i'r gymuned leol. Gallai hyn gynnwys dosbarthiadau Cymraeg i oedolion, cyfarfodydd grwpiau Cymraeg ac yn y blaen. |
| **Proffil ieithyddol presennol y mannau daearyddol):** | Nododd Arolwg Blynyddol y Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, fod 17.8% o'r ymatebwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â chanran Cymru gyfan o 29.2% o ymatebwyr. Gellir dadansoddi hyn ymhellach i'r data a gynhwysir yn y tabl sy'n dilyn: |

| | |
|---|---|
| | **Sgiliau Cymraeg y Trigolion (%):**<br><br>**Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** / **Cymru**<br><br>Gallu darllen Cymraeg: 16.9% 25.9%<br>Gallu ysgrifennu Cymraeg: 15.9% 23.8%<br>Gallu deall Cymraeg llafar: 21.2% 33.7%<br><br>Dengys y data fod bwlch yn sgiliau Cymraeg trigolion Pen-y-bont ar Ogwr o gymharu â Chymru gyfan.<br><br>**Sgiliau Cymraeg y Trigolion (%):**<br><br>**Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** / **Cymru**<br><br>Siarad Cymraeg bob dydd: 6.3% 15.2%<br>Siarad Cymraeg bob wythnos: 3.1% 5.2%<br>Ei defnyddio’n llai aml neu byth: 6.9% 7.3%<br><br>Dengys y data, o ran yr iaith lafar, fod canran trigolion Pen-y-bont ar Ogwr o gymharu â Chymru gyfan sy’n defnyddio’r Gymraeg gryn dipyn yn llai.<br><br>https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language |
| | Mae'r data'n dangos yn glir bod amrywiad yn sgiliau iaith Gymraeg trigolion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrth gymharu â data Cymru gyfan.<br><br>Mae Ysgol Heronsbridge yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer gweithgareddau cymunedol yn ystod yr wythnos. Gallai’r ysgol newydd gael ei defnyddio gan ddosbarthiadau Cymraeg i oedolion a grwpiau cymunedol sy’n dymuno gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| **Ydy’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | Cadarnhaol |

| | |
|---|---|
| **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg** | Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Er bod gan yr ysgol bresennol gyfleusterau y gallai grwpiau iaith Gymraeg eu defnyddio eisoes, gallai'r ysgol newydd fod yn fwy deniadol i grwpiau defnyddwyr gan y bydd yn gwbl hygyrch. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?** | Bydd y cyfleusterau'n rhoi cyfle i gynnig cyrsiau Cymraeg i rieni/gofalwyr a thrwy hynny gynyddu cyfleoedd iaith Gymraeg ac yn cefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol ac agenda Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. |
| **Pa gam(au) allwch chi eu cymryd i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** | Hyrwyddo'r Gymraeg drwy weithgareddau ymgysylltu cynnar â rhieni/gofalwyr.<br><br>Cyfeirio rhieni/gofalwyr at ddosbarthiadau/cyrsiau Cymraeg.<br><br>Datblygiad proffesiynol parhaus staff yr ysgol a rhannu arfer orau. |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** | Cynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg drwy gynnig y cyfle i rieni/gofalwyr ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, byddant yn cael eu hannog i gyfeirio rhieni/gofalwyr at ddosbarthiadau Cymraeg.<br><br>Gellid defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau Cymraeg a fydd yn cynyddu cyfranogiad.<br><br>Yn ogystal, cynigir cyrsiau Cymraeg gan Dysgu Cymraeg Morgannwg sy'n darparu cyrsiau ar-lein ac yn lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Maent hefyd yn cynnig ystod o gyrsiau blasu ar-lein, y gall unrhyw un gael mynediad iddynt, ac yn cynnig sesiynau Sadwrn Siarad o bryd i'w gilydd. |
| **Cyfleoedd i hybu'r Gymraeg.** | Gallai'r ysgol ganiatáu i'r gymuned ddefnyddio cyfleusterau ar gyfer dosbarthiadau/gweithgareddau Cymraeg a gyflwynir yn Gymraeg, a thrwy hynny hybu'r Gymraeg.<br><br>Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio gyda defnydd cymunedol mewn golwg. Bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Efallai y bydd cyfleoedd i gynnal gweithgareddau cymunedol yn ystod oriau ysgol. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r ysgol wedi bod â chysylltiadau â'r Urdd a gallai ddatblygu ymhellach gysylltiadau â grwpiau chwaraeon cyfrwng Cymraeg.<br><br>O ystyried ei lleoliad canolog ym Mhen-y-bont ar Ogwr, bydd yr ysgol yn hygyrch iawn i'r gymuned gyfagos ac ehangach.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu nifer yr ysgolion Cymraeg a nifer y lleoedd i ddysgwyr, fel y manylir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. |
| **Cydymffurfio â safonau Cymraeg y cyngor.** | Ymgymerir â threfniadau a phrosesau cytundebol ar gyfer cyflawni'r prosiect fel eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Bydd yr holl arwyddion yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu yn ddwyieithog. |

| **Adolygiad – Sylwadau'r ymgynghoriad** | **Dyddiad:** |
|---|---|
| Mae'r asesiad a gynhaliwyd cyn y cyfnod ymgynghori yn dal yn ddilys. | 25 Mai 2022 |

**Monitro, Gwerthuso ac Adolygu**

Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd y prosiect yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn ystod y cynllunio, y cyflwyno, ac ar ôl ei feddiannu gan y Rheolwr Prosiect – y Tîm Moderneiddio Ysgolion.

**Crynodeb**

Y cynnig yw gwneud newidiadau rheoledig i gynyddu nifer y disgyblion y mae Ysgol Heronsbridge yn darparu ar eu cyfer i 300 ac adleoli'r ysgol i Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr, o ddechrau tymor yr hydref 2025.

Ystyrir bod y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg:

- Gellid defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer defnydd cymunedol / dosbarthiadau oedolion drwy'r Gymraeg.
- Mae'r safle wedi'i leoli'n ganolog i annog defnydd gan y gymuned gyfagos ac ehangach sy'n ceisio cyfle i gymryd rhan mewn dosbarthiadau/cyrsiau Cymraeg y gellid eu cynnig.
- Bydd yr ysgol newydd yn gwbl hygyrch.

Atodiad 11 – Ffurflen sgrinio Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEC)

## Ffurflen Sgrinio Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEC)

Mae'r ddogfen hon yn offeryn amlbwrpas sy'n sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i gydymffurfio â deddfwriaeth Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a dangos ein bod wedi rhoi'r sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol o dan y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae hefyd yn sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu cymryd i ystyriaeth.
Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad i'ch cynorthwyo i gwblhau'r AEC hwn.

- **Dylid cynnal yr asesiad hwn yn ystod cyfnod ffurfio eich polisi neu gynnig. Bydd unrhyw effaith negyddol a nodir yn gymorth i chi ddyfeisio strategaethau ymgysylltu ar gyfer casglu tystiolaeth bellach.**
- **Os ydych yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn fel rhan o'ch polisi neu gynnig, dylid llenwi'r ffurflen hon cyn i'r ymgynghoriad ddechrau a'i defnyddio fel offeryn i lywio cwestiynau eich ymgynghoriad a'ch gweithgareddau ymgysylltu.**
- **Mae angen ymateb i bob adran a phob cwestiwn ac ni ddylid eu gadael yn wag hyd yn oed os ydynt yn 'amherthnasol' neu 'yn destun ymgynghoriad pellach'.**

| | |
|---|---|
| Enw'r prosiect, polisi, swyddogaeth, gwasanaeth neu gynnig sy'n cael ei asesu: | Ysgol Arbennig Heronsbridge |
| Disgrifiad byr a nod y polisi neu gynnig: | Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd disgyblion yn Ysgol Heronsbridge i 300 ac adleoli i Fferm yr Ynys. |
| Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r polisi neu gynnig? | Cyfarwyddwr – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Dyddiad cwblhau sgrinio AEA: | 16/07/21 |
| Ydy'r polisi neu'r cynnig hwn yn ymwneud ag unrhyw bolisïau eraill? (dywedwch beth) | • Rhaglen Moderneiddio Ysgolion<br>• Rhaglen Dechrau'n Deg<br>• Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol |

| | |
|---|---|
| | <ul><li>Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr – Cynllun Llesiant</li><li>Cynllun Corfforaethol 2018-2022</li><li>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig</li><li>Strategaeth Symud Cymru Ymlaen 2018-2021</li><li>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015</li><li>Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl – cynllun gweithredu 2017-2021</li><li>Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</li><li>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</li><li>Strategaeth Iaith Gymraeg 2050</li><li>Deddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018</li></ul> |
| Ar bwy y mae'r polisi hwn yn effeithio (e.e. staff, preswylwyr, pobl anabl, menywod yn unig)? | Dysgwyr, rhieni a staff |
| Ydy'r polisi'n gysylltiedig â pholisïau neu feysydd gwaith eraill (mewnol neu allanol), yn dylanwadu arnynt neu'n effeithio arnynt? *Sylwer:* Ystyriwch hyn o ran gofynion statudol, polisïau lleol, penderfyniadau rhanbarthol (partneriaeth), polisïau cenedlaethol, diwygiadau lles. | <ul><li>Deddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018</li><li>Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr – Cynllun Llesiant</li><li>Cynllun Corfforaethol 2018-2022</li><li>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig</li><li>Rhaglen Dechrau'n Deg</li><li>Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru</li><li>Strategaeth Symud Cymru Ymlaen 2018-2021</li><li>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</li><li>Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl – cynllun gweithredu 2017-2021</li><li>Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</li><li>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</li><li>Strategaeth Iaith Gymraeg 2050</li></ul> |

| | |
|---|---|
| Os ydy hwn yn adolygiad neu ddiwygiad o bolisi presennol, a oes AEC wedi ei gynnal? Rhowch y dyddiad cwblhau, os gwelwch yn dda: | D/B |
| Os oes AEC yn bod, pa ddata newydd a gasglwyd ers ei gwblhau? | D/B |

**<u>Asesiad Effaith</u>**

**Nodweddion Gwarchodedig**

Ydy hi’n bosibl y bydd unrhyw agwedd ar y polisi neu’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd?

***Sylwer: Os gwelwch effaith negyddol ar gyfer <u>unrhyw</u> nodweddion gwarchodedig bydd angen i chi gasglu tystiolaeth bellach i gwblhau AEC llawn.**

| | **Rhowch X yn y blwch perthnasol** | | | **Esboniad o’r effaith** |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith / effeithiau cadarn-haol** | **Effaith / effeithiau negyddol** | **Dim effaith** | |
| Rhyw | **X** | | | **Bydd dyluniad yr adeilad yn darparu ar gyfer defnyddwyr niwtral o ran rhyw** |
| Anabledd | **X** | | | **Bydd yr adeilad a’r safle yn cwbl gydymffurfio â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.** |
| Hil | | | **X** | |
| Crefydd a chred | | | **X** | |
| Tuedd rywiol | | | **X** | |
| Oedran | **X** | | | **Amgylchedd ysgol gwell i ddisgyblion** |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | | | **X** | |
| Trawsrywiol | | | **X** | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | | | **X** | |

**Effaith Economaidd-gymdeithasol**

Ydy hi’n bosibl y bydd unrhyw agwedd ar y polisi neu’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl neu gymunedau sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?

***Sylwer: Os gwelwch effaith economaidd-gymdeithasol negyddol bydd angen i chi gasglu tystiolaeth bellach i gwblhau AEC llawn.**

| | Rhowch X yn y blwch perthnasol | | | Esboniad o’r effaith |
|---|---|---|---|---|
| | Effaith / effeithiau cadarn-haol | Effaith / effeithiau negyddol | Dim effaith | |
| Anfantais economaidd-gymdeithasol | X | | | **Cyfleusterau gwell i’r disgyblion fydd yn mynychu, ac sy’n byw gydag** a**nfantais economaidd-gymdeithasol. Posibilrwydd o ddarpariaeth allgyrsiol, a hynny o bosibl yn galluogi’r rhieni i edrych am gyflogaeth neu hyfforddiant** |

**Y Gymraeg**

Ydy hi’n bosibl y bydd unrhyw agwedd ar y polisi neu’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy’n defnyddio’r Gymraeg ac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?

***Sylwer: Os gwelwch effaith negyddol ar bobl sy’n defnyddio’r Gymraeg ac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg bydd angen i chi gasglu tystiolaeth bellach i gwblhau AEC llawn.**

| | Rhowch X yn y blwch perthnasol | | | Esboniad o’r effaith |
|---|---|---|---|---|
| | Effaith / effeithiau cadarn-haol | Effaith / effeithiau negyddol | Dim effaith | |
| Fydd y polisi neu’r cynnig yn cael effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg | x | | | Defnydd posibl o’r ysgol ar gyfer grwpiau cymunedol Cymraeg (er enghraifft, dosbarthiadau Cymraeg i oedolion). |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Fydd y polisi neu'r cynnig yn trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg | **x** | | | Defnydd posibl o'r ysgol ar gyfer grwpiau cymunedol Cymraeg (er enghraifft, dosbarthiadau Cymraeg i oedolion). |

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol a dyletswyddau penodol, sy'n gymorth i awdurdodau gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

Nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw integreiddio ystyriaethau ynghylch hyrwyddo cydraddoldeb ym musnes awdurdodau cyhoeddus o ddydd i ddydd. I grynhoi, rhaid i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a'r rhai nad ydynt
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a'r rhai nad ydynt

**Sut mae'r polisi neu'r cynnig hwn yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol?**

Câi'r cynllun ei ddatblygu i sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar unrhyw grŵp gwarchodedig.

## Caffael a Phartneriaethau

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ystyried anghenion nodweddion gwarchodedig wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys pan wneir hyn mewn partneriaeth â sefydliadau eraill neu drwy gaffael gwasanaethau. Mae Safonau'r Gymraeg hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ystyried effeithiau unrhyw benderfyniad polisi, neu newid yn y gwasanaeth a ddarperir, ar y Gymraeg, sy'n cynnwys unrhyw waith a wneir mewn partneriaeth neu gan drydydd partïon. Rhaid inni hefyd sicrhau ein bod yn ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth gynllunio penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr i ystyried sut y gall trefniadau o'r fath leihau anghydraddoldebau canlyniadau a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol.

**A fydd y polisi neu'r cynnig hwn yn cael ei gyflawni'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan gontractwyr neu bartneriaid?**

| | **Rhowch X yn y blwch perthnasol:** |
|---|---|
| Bydd | X |
| Na fydd | |

Os felly, pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol, Deddfwriaeth y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol mewn perthynas â chaffael a/neu bartneriaethau?

| | Camau a gymerir i sicrhau cydymffurfio: |
|---|---|
| Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol | **Mae dogfennau caffael a chontract cadarn yn cynnwys sylw dyledus i hyn** |
| Deddfwriaeth y Gymraeg | **Mae dogfennau caffael a chontract cadarn yn cynnwys sylw dyledus i hyn** |
| Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | **Mae dogfennau caffael a chontract cadarn yn cynnwys sylw dyledus i hyn** |

**Beth ydych chi wedi penderfynu ei wneud?**

Cofnod o benderfyniad yn seiliedig ar asesiad o'r effaith ar nodweddion gwarchodedig, yr effaith economaidd-gymdeithasol a'r effaith ar y Gymraeg. Rhowch X yn y blwch perthnasol.

Os byddwch yn nodi effaith negyddol ar un, rhai neu bob un o'r nodweddion gwarchodedig**, ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol neu'r Gymraeg, RHAID i chi gwblhau AEC llawn.**

| Yr effaith a ganfuwyd | Y camau nesaf: | Rhowch X yn y blwch perthnasol: |
|---|---|---|
| Ni chanfuwyd effaith negyddol | Sgrinio allan: parhau â'r polisi neu'r cynnig. | **X** |
| Canfuwyd un neu fwy o effeithiau negyddol | Cwblhau AEC llawn i gasglu mwy o dystiolaeth ar yr effeithiau negyddol posibl. | |

| **Eglurwch, os gwelwch yn dda, y rhesymau am y penderfyniad hwn. Os ydych wedi 'sgrinio allan' rhaid i chi gynnwys gwybodaeth a thystiolaeth i gyfiawnhau eich penderfyniad.** |
|---|
| Nodwyd nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Nodwyd effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys rhyw, oedran ac anabledd fel y manylwyd arnynt. Gan na nodwyd unrhyw effeithiau negyddol, ni fydd angen cynnal asesiad effaith cydraddoldeb llawn. |

**Cymeradwyaeth:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwblhau sgrinio AEC:** | **16/07/21** |
| **Cymeradwywyd gan (Pennaeth Gwasanaeth):** |  |
| **Dyddiad cymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaeth:** | **22/03/2022** |

| | |
|---|---|
| **Os yw'r sgrinio hwn wedi canfod bod angen AEC llawn, pwy fydd yn cynnal yr AEC?** | **D/B** |
| **Os yw'r sgrinio hwn wedi canfod bod angen AEC llawn, erbyn pryd y bydd yr AEC llawn wedi cael ei gwblhau (dyddiad):** | **D/B** |

Pan fydd wedi'i chwblhau, rhaid i'r gwasanaeth gadw'r ffurflen hon, dylid anfon copi hefyd i **equalities@bridgend.gov.uk** Dylid cyfeirio at y sgrinio AEC a'i grynhoi yn yr adroddiad cabinet perthnasol ar gyfer y polisi hwn. Lle mae angen AEC llawn, dylid ei gynnwys fel Atodiad gydag adroddiad y cabinet ac felly bydd ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.

## Atodiad 12

**Rhestr Rhanddeiliaid**

- Y Corff Llywodraethol, rhieni, staff, gofalwyr, gwarcheidwaid, a dysgwyr Ysgol Heronsbridge
- Ysgolion eraill o fewn y clwstwr/ardal
- Awdurdodau cyfagos
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdodau Esgobaethol Catholig
- Gweinidogion Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Aelodau Cynulliad Etholaethol a Rhanbarthol (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy’n cynrychioli’r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Cynghorau Tref a Chymuned sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion
- Darparwyr meithrin annibynnol neu wirfoddol yr effeithir arnynt efallai, gan gynnwys y Mudiad Meithrin
- Tîm Gofal Plant CBS Pen-y-bont ar Ogwr/Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle maent yn bresennol
- Aelodau’r Cabinet
- Y Bwrdd Rheoli Corfforaethol
- Aelodau Wardiau
- Rheolwr Grŵp CBSP, Cynhwysiant
- CAMHS, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.

- Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Paediatregwyr, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Therapi Galwedigaethol (ThG) GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Gwasanaeth Ffisiotherapi: GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Seicolegwyr Addysg. Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- SNAP Cymru
- Barnardo’s Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg